

ECO'R WYDDFA

RHIF 309

MAWRTH 2004

PRIS 40c

LLONGYFARCHIADAU

— i —

Bryn Jones (Golygydd yr Eco)
a Gwenan ar enedigaeth
eu plentyn cynta' – Nel,
ar 3 Chwefror.

Pan droediodd Manon Lloyd Williams o Lanberis ar dir Parc yr Arfau, Caerdydd ar 14 Chwefror, creodd record arbennig iawn. Wrth ennill ei chap rygbi 'llawn' yn erbyn yr Alban daeth y person cyntaf i gynrychioli ei gwlad mewn pêl-droed a rygbi. Yn anffodus, ar ddydd Sant Ffolant, ni ddaeth diwedd glo rhmantus wrth i'r tîm cartref golli o 30-10.

Mae'n rhaid fod perfformiad Manon wedi plesio, gan iddi ennill ei hail gap yn erbyn Iwerddon ar Barc Thorman, Limerick, cartref tîm cyhyrog a llwyddiannus Munster. Ar wahân i ennill y capiau, dyna Manon hefyd wedi cael y wefr o chwarae ar ddau o feysydd hanesyddol y byd rygbi.

Yn 25 oed erbyn hyn, ar yr asgell mae Manon yn chwarae ac yn wir wedi troi at rygbi mae hi wedi cael gyrfa ddisglair yng nghamp y teulu, sef pêl-droed. Yn y maes hwnnw roedd eisoes wedi ennill wyth cap i dîm merched Cymru. Enillodd gwpan Cymru dair gwaith gyda thîm merched Dinas Bangor a chynrychioli'r clwb llwyddiannus hwnnw yng nghwpan UEFA i ferched.

Yna, ym mis Tachwedd 2001 daeth cryn siom. Torrodd ei choes mewn gêm yn erbyn Lerpwl. Roedd yn anaf difrifol a bu allan o'r gêm am flwyddyn gron. Ond, mae Manon yn cyfaddef bod effaith seicolegol i'r anaf hefyd. A hithau'n chwaraewraig mor gystadluol, teimlai ddiffyg hyder, yn cnwedig mewn clfennau tacio, oherwydd yr anaf. I geisio adennill ei ffitrwydd – mae

CREU HANES



hefyd yn chwaraewraig hoci safonol – dechreuodd fynd i ymarfer gyda thîm rygbi Caernarfon. Roedd wedi chwarae ambell gêm i'r clwb ond gan fod y gemau rygbi a phêl-droed, yn cael eu cynnal ar y Sul, y bêl-gron gâi'r flaenoriaeth. O dipyn i beth, wedi'r anaf, daeth awch i fentro i faes y bêl hirgron. Wedi dyrnaid o gemau, dewiswyd Manon i dîm Merched y

Gogledd, ac yna i Dîm 'A' Cymru yn erbyn y Fyddin Brydeinig ym mis Tachwedd. Sgoriwyd dau gais gan yr asgellwr chwimwth, ac yn amlwg roedd y dewiswyr yn dechrau cymryd sylw.

Yn amlwg, mae dewis Manon a Kylie Wilson – sydd eisoes wedi ennill 20 cap – y ddwy o glwb Caernarfon yn rhoi hwb sylweddol i'r gamp yn y gogledd. Yn wir, roedd Lowri

Jones, o glwb y Bala, ymysg yr eilyddion hefyd. Gall Clwb Caernarfon a Bro'r Eco ymfalchïo hefyd gan fod Catrin Evison, o Gaeathro, i lawr yng Nghaerdydd dros hanner tymor yn ymarfer gyda charfan dan 19 Cymru.

Wedi sesiynau hyfforddi cenedlaethol, daeth yr alwad i greu hanes yn y gêm yn erbyn yr Alban. Yn amlwg, mae'r dyrchafiad yma'n golygu cryn deithio ar gyfer y sesiynau ymarfer yng Nghaerdydd. Braffelly, ar daith undonog yr A470, yw cael cwmni Kylie Wilson o Gaernarfon. A phwy a wŷr, gan fod Catrin Evison hithau yn chwarae ar yr asgell, na welwn drindod o Gaernarfon – neu fwy – yn cynrychioli Cymru.

Mae'r colofnau hyn wedi hen groniclo hanes y teulu amryddawn o Lanberis, o Iwan y rhcolwr; Marc a Cai y chwaraewyr, ac yn awr Manon, sefydlydd hanes.

Ymfalchïwn yn ein bro, a'r talentau sydd yma. Mwy o reswm byth i ni eu cefnogi.

Gyda llaw, sôn am asgellwyr! Rhys Williams, Shane Williams, Manon Williams. Unrhyw straeon, Manon?

* * *

Yr un diwrnod ac y creodd Manon ei record roedd Non Evans, capten Cymru, yn ennill ei 50 cap, sy'n rhoi cryn syndod i rywun cyn gymaint o gemau rhyngwladol i ferched a gynhelir erbyn hyn. Yn wir mae yna gystadleuaeth y Chwe Gwlad i Ferched hefyd yn cydreddeg gyda chystadleuaeth y dynion. Yr unig wahaniaeth yw fod Sbaen yn y gystadlaeth yn hytrach na'r Eidal.

Gallwn gau pen y mwdwl ar gampau tîm cwis Clwb Ieuencid Llanrug, trwy gyhoeddi mai hwy yw pencampwyr cliws

chwaraeon rhaglen bore Sadwrn Radio Cymru. Diolch i weledigaeth Dave Phillips, a gwybodaeth rhyfeddol y tîm, bydd y clwb yn derbyn y brif wobwr, sef cit cyflawn wedi ei noddi gan y rhaglen. Gobeithio na fydd y Weiran Gaws – un o selogion tîm Llanbêr – yn rhy 'embarasd'

wrth gyflwyno'r wobwr i'r 'hen clyn'.

Y bwriad yw gwneud rhaglen fyw o dafarn Penbont yn ystod mis Ebrill, ac yno y cyflwynir y wobwr. Roedd yn rownd derfynol o safon anhygoel – anoracaidd go iawn! Llanrug a orfu o 9-7 yn erbyn tîm pêl-droed y Ceinewydd, Ceredigion. Edrychwn ymlaen

Diwedd Llwyddiannus

felly i weld y cit newydd yn 'disgleirio' yng nghystadleuaeth Tlws yr Eco cleni.

Sôn am Llanrug! Cofio'r siom o golli 9-0 yn erbyn y Darans? Daeth cryn newid byd erbyn hyn, a chriw Eithin Duon yn hen sefydlu eu hunain yn y Cynghrair. Dangos tipyn o gymeriad.

Yn yr un modd y Darans,

gyda gemau mewn llaw ond â buddugoliaeth dda yn erbyn Bodedern yn ddiweddar.

Gobeithio hefyd bod Bethel wedi troi'r gornel ar ôl eu rhediad gwael yn y cwpanau yn ddiweddar. Mac popeth yn ymddangos yn dibynnu ar y gêm yn erbyn Y Cofis er mwyn gweld ble fydd y pencapwriaeth yn mynd. Tipyn o gêm fydd honno.

Gobeithio na fydd y gêm honno y diwrnod ar ôl y noson fawr yn y Bedol!

ECO'R WYDDFA

RHIF 309
MARTH 2004

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON

Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Richard Thomas (01286) 871954
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prj.wales.com

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650700)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Eiddir, Dinorwig (870292)

DEINIOLEN: Mrs Margaret Cynll Griffith,
(870984)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eilion Roberts,
Gwyn-y-Gwynn (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(875384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Aber-y-Bryn (872270)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

V RHIEFN NESAF

Dewnydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, MAWRTH 22

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, EBRILL 1

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Ebrill	Mawrth 22	Ebrill 1	Waunfawr	Nan Roberts	650570

Lythgrau

Sian E. Roberts
Cyfadran Gofal
Neuadd y Dref
BANGOR

Annwyl Olygyddion,

Rwy'n gweithio yn y tîm lleoliadau ym Mangor i Gyngor Gwynedd, a rhan o'm rôl ydi recriwtio ac asesu pobl i fod yn ofalwyr maeth i'r Cyngor. Mae gennym ddiffyg gofalwyr enbyd ar hyn o bryd, ac o ganlyniad mae plant sydd angen cartref yn aml yn gorfod cael eu lleoli o'u cynefin.

Felly, rydym wedi llunio cynllun newydd ar gyfer strategaeth recriwtio ar gyfer y flwyddyn hon. Fel rhan o'r strategaeth yma rydym wedi trefnu noson ar gyfer ein gofalwyr maeth ar nos Fercher y 25 Chwefror yn y Sportsman ym Morthmadog am 7.30pm.

Amcan y noson ydi rhoi teyrnged i ofalwyr maeth am y gwaith caled maent yn ei wneud trwy'r flwyddyn, ac fe fydd Mr. Glyn Hughes, pennaeth newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwobrwyo y rhai hynny sydd wedi rhoi 15+ ac 20+ o wasanaeth i'r Cyngor. Rydym hefyd am gymeradwyo y gofalwyr newydd sydd wedi cael eu cofrestru i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn gobeithio cael Dafydd Wigley yno hefyd i godi statws y noson.

Yn dilyn y noson yma, rydym yn cynnal 'gwibdaith' ble bydd aelodau o'r tîm hwn, ynghyd â gofalwyr maeth profiadol, yn mynd o gwmpas y sir i fannau cyhoeddus i fod ar gael i siarad â'r rhai hynny sydd a diddordeb mewn maethu, ac i egluro ein bod angen pob math o bobl, ar gyfer plant o wahanol oedran a hynny am wahanol gyfnodau. Fe fydd yn gyfle gwych yn ogystal i bobl gael deall beth sydd ar gael iddynt hwy fel gofalwyr maeth.

Fel rhan o'r daith, rydym yn ymweld â'r Pwll Nofio ym Mangor ar fore Mercher, Mawrth 17 am 10.00 y bore tan tua 11.30, a'r ganolfan Hamdden yn Arfon am 3.00 tan tua 4.30 o'r un diwrnod.

Pc byddai pobl methu ymweld â ni yn ystod ein gwibdaith, bydd croeso cynnes iawn iddynt roi caniad i ni ar 01286 679 841, neu iddynt ein c bostio ar y cyfeiriad canlynol WendyJones@gwynedd.gov.uk i drafod ymhellach.

Sian Roberts
Gweithwraig Gymdeithasol

Cynllun Iaith Gymraeg

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd wedi paratoi Cynllun Iaith Gymraeg drafft yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar sut mae'n bwriadu cynnal ei fusnes yn gyhoeddus. O dan Adran 13 o'r Ddeddf, mae'n ddyletswydd ar y BIL i gyhoeddi'r Cynllun drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 'er mwyn cael barn y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg ac eraill yr effeithir arnynt gan y cynllun'. Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 9 Chwefror 2004 a chwblheir ar 2 Ebrill 2004.

Dosbarthwyd y Cynllun drafft mor eang â phosibl ac mae ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yn ardal Gwynedd. Gellir cael copiau gan y Bwrdd Iechyd Lleol yn:

Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd
Eryldon Ffordd Campbell
Caernarfon Gwynedd LL55 1HU

Hefyd, mae ar gael ar wefan y BIL yn:

www.iechydgywnedd.org

Dylai'r Bwrdd Iechyd Lleol dderbyn sylwadau ar y Cynllun drafft erbyn 2 Ebrill 2004. Yn dilyn hyn, cwblheir y Cynllun a'i gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer cymeradwyaeth derfynol erbyn Ebrill/Mai 2004.

Theatr Bara Caws

AR Y LEIN

gan Gwyneth Glyn

Theatr Gwynedd, Bangor

Nos Wener, 5 Mawrth

Theatr Seilo, Caernarfon

Nos Iau, 11 Mawrth

Dau fflat, dau fywyd, dau berson unig. Trwch wal a thrwch breuddwydion yn agendor rhyngddynt. Mae gobeithion Brenda yn y sêr a'i thraed ar y ddaear, tra mae Daniel yn cerdded y ffin yn ddyddiol rhwng concro'r byd a cholli'r cwbl. Wrth i'r ddau gamu'n nes i'r gagendor, prin mae nhw'n deall fod dyfodol y ddau 'ar y lein'.

Gyda drama newydd Gwyneth Glyn mae Bara Caws yn cyflwyno cynhyrchiad ysgafn ac ystyrlon, sy'n mynd i'r afael â rhai o broblemau sylfaenol bywyd yn yr unfed ganrif ar hugain. Dieithrwch, unigrwydd a'r diffyg cyfathrebu sy'n digwydd ar warthau technoleg. Mewn deialog brathog, cyfoes, dilynwn fachgen a geneth wrth iddynt gysylltu a datgysylltu, chwilio a cholli, cyffwrdd a charu.

Yr actorion yw Tammy Gwyn o Lanrug a Rhodri Meilir (o'r Wyddgrug) a'r dramodydd a'r cyfarwyddwr yw Gwyneth Glyn o Lanarmon.

NI CHYHOEDDIR YN ECO'R WYDDFA,
UNRHYW LYTHYR HEB ENW A CHYFEIRIAD IDDO.
GOLYGYDDION



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL

CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONTWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

FFENESTRI - DRYSAU - CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffontwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



Cystadleuaeth Nadolig Llyfrgell Caernarfon

Llongyfarchiadau mawr i Dafydd Llwyd, 4oed, o Waunfawr, ar ennill cystadleuaeth Nadolig Llyfrgell Caernarfon.

Cyflwynwyd ei wobwr sef par o becynnau Llyfrau, iddo yn Llyfrgell Caernarfon Dydd Iau Nawfed ar Hugain o Ionawr.

Diolch i pawb a gymerodd ran yn y gystadleuaeth a chofiwch edrych allan am gystadleuaethau a digwyddiadau eraill yn Llyfrgell Caernarfon yn y misoedd nesaf.

RHIAN WYN PARRY EVANS



DAWNSIO DISGO

Daeth cryn lwyddiant i rai o ddawnsyr Bethel yng Ngŵyl Gelf Clybiau Ieuencid Gwynedd a gynhaliwyd ym Mhorthmadog. Yn cynrychioli clwb Bethel daeth Hayley Roberts yn gydradd gyntaf ar y ddawns disgo unigol yn yr oedran 15-19. Yn cyd ddawnsio gyda Sioned Evans, cafwyd yr ail wobwr yn y ddawns i barau.

Bu genethod o'r pentref hefyd yn cynrychioli clwb Llanrug. Ers rhai wythnosau bu Sasha Williams, 14 oed o Fwthyn Tyddyn Andro, yn hyfforddi tîm dan 15 y clwb. Cipiodd y grŵp dan 15 y brif wobwr a daeth yr un teilyngdod i Sasha ei hun yn y ddawns unigol. Dwy arall o'r pentref, Zoe Williams ac Elliw Sharpe - y ddwy yn 13 oed - a gipiodd y tlws fel y par gorau.

Dymunwn yn dda felly i Hayley, Sasha, Zoe, Elliw a grŵp Llanrug, fydd yn cynrychioli Gwynedd yn y gystadleuaeth i Gymru gyfan yn y Drenewydd. Bydd rhai hefyd yn cynrychioli Ysgol Brynrefail yn Eisteddfod yr Urdd.

Rhaid cyfeirio hefyd at ddoniau tad Sahsa, sef Andrew. Fel arfer mae ei draed yn tincial wrth browlio ar hyd y llinell yn annog tîm pêl-droed Bethel, a gwneud yn siŵr, gyda'i lais melodaid, bod pob dyfarnwr yn cadw'n effro! Mae ei fysedd hefyd ar dân ar hyn o bryd, gan ei fod yn serennu fel aelod o dîm dartiau y Bedol, sydd ar rediad diguro o saith gêm. Dipyn gwell record na Houllier, ynte Andrew!

GWERSI PIANO A CHANU

Sharon V. Williams B.A.
Pentir (01248) 353746

DRAENOG

Tydi hi ddim wedi bod yn fis braf i'r Draenog. Gormod o law i fentro 'nhrwyn allan! Mi ddysgais i 'ngwers fis ynghynt ar nos Calan pan own i'n stwyrian o gwmpas Llanberis yn chwilio am stori. Roedd hi'n pistyllio, a 'mhiga bach i'n socian. Ond yn sydyn daeth criw o ddynion allan o un o westai'r fro - yn wlypach na fi! Roedd mwy na cwrw wedi llifo y tu mewn y noson honno. Roedd to y gwesty wedi dechrau gollwng!

Bu'r digwyddiad yn ddigon i un a alwai ei hun 'Y Bardd Gwlyb' ebychu, mewn goslef farddonllyd, y pennill aruchel yma:

'Mae'n bwrw glaw yn sobor iawn
Heno, ar Noswyl Calan;
Ninnau'n 'mochel dan yr ambarel
Yng Ngwesty y Dolbadarn!

Mae'n dda gan Draenog gyhoeddi fod y nam wedi ei atgyweirio, a'i bod, unwaith eto, yr un mor glyd a chartrefol yn y gwesty.

Yn ôl bob sôn mi fu'r anffawd yn ddigon i berchennog y gwesty i miglo hi, ynghyd â rhai o'i fêts, draw am Barbados, yn ddigon pell o law. Ond doedd petha ddim yn fêl i gyd yn fannu chwaith. Daeth y cyfaill i lawr i swper un noson yn teimlo'n bur anghyfforddus, gyda'i gerddeddiad wedi'i lesteirio. Cerddai fel cowboi wedi treulio bob munud o'i oes ar gefn ceffyl! Daeth eglurhad maes o law - roedd wedi rhoi ei drôns tu ôl ymlaen. Does dim gwir yn y stori ei fod wedi pwtu'n lân hefo Robin, Ray a Dafydd am feiddio gofyn iddo ai trôns 'waterproof' oedd ganddo!

RYGARUG



Copa Cabàn

Dewch ar daith ryfeddol drwy Fro Eco'r Wyddfa gydag aelodau Rygarug yn eu sioe diwedddara - Copa Cabàn. Bydd 100 o bobl ifanc yn canu, dawnsio ac actio eu ffordd drwy sgript gyffrous Mair Tomos Ifans, sy'n llawn antur, trocon trwstan a llond trol o hwyl. Gyda 12 o gancuon newydd sbon gan Sian Wheway i'w dysgu mae'r aelodau wedi bod yn brysur iawn dros y misoedd diwethaf ac yn edrych ymlaen i berfformio yn Theatr Seilo unwaith eto.

Ffe fydd dau berfformiad - nos Wener, 16eg o Ebrill a nos Sadwrn, 17eg o Ebrill. Bydd y tocynnau ar gael drwy ffonio 07909713149 neu cysylltwch drwy c-bost - post@rygarug.org

Gwefan Ryarug

Mae aelodau dosbarthiadau Aml-gyfrwng Rygarug wedi bod yn cyd-weithio gyda Meic Roberts a

chwmmi Delwedd i greu gwefan sy'n llawn gwybodaeth am ein holl weithgareddau. Gallwch anfon sylwadau neu wneud ymholiadau drwy ymweld â'r wefan - www.ryarug.org

Trip i'r Theatr

Nos Lun 16eg o Chwefror aeth llond bws o aelodau a rhieni i Theatr Gogledd Cymru, Llandudno i wyluo perfformiad cyffrous gan y Chinese State Circus. Roedd na bob math o gampau'n cael eu cyflawni ar ben cadciriau, polion a pheli mewn gwisgoedd lliwgar traddodiadol. Roedd y miwsig traddodiadol Sieinaidd yn wych - ond ychydig yn uchel i rai!

Am fwy o wybodaeth am weithgareddau Rygarug cysylltwch â'r Trefnydd - Audra Roberts ar 01909713149 neu cysylltwch drwy c-bost: post@rygarug.org



Wavell Roberts

GIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN GIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Deolig cartref

Cigodd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwyliau oll-gynhwysol

O SIAMBAR SELWYN

Yn dilyn llith y mis diwetha, pryd y bûm yn sôn am rai atgofion a ddaeth imi o ddarlenn *Crych dros dro*, Gwilym Owen, fe'm holwyd gan un neu ddau pwy oedd Cyfarwydd Caer, Phyllips ac Andre Previn y cyfeiriais braidd yn niwlog atynt.

Cymeriad cwbl ddychmygol oedd Phyllips. Roedd Cyfarwydd Caer yn cisteddodwr selog - un o gyffiniau Caer oedd o, ac yn gyn-enillydd ar yr Unawd Bas yn y Brifwyl. Dwi'n berffaith sicr na fu i'r Andre Previn gwreiddiol dreulio yr un diwrnod yn ein Prifwyl, ond fe dreuliodd yr Andre Previn y cyfeiriais ato ychydig o ddyddiau ym Mhrifwyl Bro Dwyfor 1975 - diolch i ddychmyg Gwyn Erfyl.

Phyllips neu Proffesor Phyllips Digwydd gwrandio ar y rhaglen Byd Natur ar y radio yr oeddwn i rhywdro ddechrau haf 1970. Fy hen gyfaill, Alun Pierce, Tremadog, oedd yn ceisio cael cymorth y panel oherwydd roedd 'na nifer o'i ieir o'n marw, ac roedd hyn, yn naturiol, yn achosi pryder iddo. Mae'n siŵr i'r panel roddi esboniad ac ambell awgrym iddo.

Yn ddiweddarach, cefais innau fy nhemio i ffonio Alun, a mabwysiadu rhyw fath o acen ddeheuol i gydymeimlo ag o, ac i gynnig cymorth. Dywedais wrtho fy mod i'n gweithio yn Adran Amaethyddol, Coleg y Brifysgol Aberystwyth, ac wedi sgwrsio ynglŷn â'r broblem, awgrymais iddo anfon sampl o faw yr ieir i gael ei archwilio a'i ddadansoddi, ac o bosib y gallwn ddarganfod beth oedd yn gyfrifol am ladd ei ieir.

Alun yn torri ar draws ac yn holi pwy oeddwn i. Ar amrantiad atebais, Proffesor Phyllips o Adran Amaethyddol, Coleg y Brifysgol Aberystwyth.

'Ydach chi 'rioed yn deud wrtha i,' meddai Alun, 'os anafna i sampl o faw yr ieir 'ma i chi i'r Coleg 'na, y medrwech chi ddeud wrtha i be sy'n 'u lladd nhw?'

'Mi allwn i roi syniad go dda i chi,' meddai'r gŵr gwybodus.

'Faint o'r baw ieir 'ma ydach chi isio?' oedd cwestiwn nesa Alun. Fedrwn i ddim ymatal, ac roedd hi'n anodd cadw'r ddeialog, ond mi fentraais drwy awgrymu,

'Wel, dwedweh llond bocs sgidic go dda.'

Clywais floedd o'r ochr arall, 'Rarglwydd mawr ddyn, llond bocs sgidia, mi fydd 'na ddrewdod uffernol erbyn i hwnnw gyrraedd Aberystwyth 'na.'

Dyna gychwyn y ddrama rhwng Proffesor Phyllips ag Alun. Roedd o wedi adrodd y stori i ni sawl tro ac wedi ychwanegu peth at y ddeialog, yn ei ddull lliwgar ei hun.

Yn ystod Eisteddfod Rhydaman, roeddwn ni'n aros yn Llangadog, ac fe lwyddwyd rhywsut i roi ar wybod i Alun bod y Proffesor Phyllips 'ma yn byw yn yr ardal. Fe drefnwyd i Gwyn Llywelyn (os cofiaf) roi cefndir y stori i un o'r cymeriadau lleol, ac yn ddiweddarach fe gyflwynwyd Alun i'r Proffesor Baw Ieir. Bu'r ddau yn sgwrsio drwy gydol y noson, a phan ofynnwyd i Alun pwy oedd y brawd, yr ateb a gafwyd oedd,

'Proffesor o Goleg Aberystwyth, B.Sc., dew, boi gwybodus. Gwbod bob dim am gachu ieir, a gyda llaw Phyllips ydi enw fo, nid Phyllips.' Fedra i ddim llai na meddwl mai Alun oedd yn cael hwyl am fy mhen i ar ddiwedd y noson honno.

Cyfarwydd Caer

Yn Eisteddfod Bro Dwyfor y daethom i gysylltiad â'r cyfaill yma. Roeddwn ni'n mwynhau ambell beint ac yn gwrandio ar Alun yn deud straeon, ac un neu ddau arall ohonom yn rhoi

cyfraniad. Yna, fe fynnodd y 'Cyfarwydd' ddeud stori. Un o'r straeon diflas hir-wyntog rheiny, a'i hergyd glo hi mor fflat â chrempog. Fe fynnodd gael encôr, heb i neb wneud cais am hynny. Y bore dilynol fe ddaeth i gyd-frecwasta hefo ni, ac fe aflonyddwyd arnom gan ryw wenynen. Ceisiodd y 'Cyfarwydd' ei orau glas i gael 'madael â hi, ond aflwyddiannus fu pob ymdrech. Yna fe gafodd gyngor ffraeth a chrafog gan un o'r criw, 'Dudwch stori wrthi frawd, ac mi fydd ni'n siŵr o fynd allan, i chi.'

Andre Previn

Doeddwn i erioed wedi clywed, er mawr gywilydd imi, am y cerddor enwog Andre Previn hyd nes i mi gael fy nghyflwyno gan Gwyn Erfyl, heb ddim rhybudd, i ryw Reolwr banc eitha parchus, fel Andre Previn.

Yng Ngwesty Bron Eifion, Cricieth yr oeddwn ni, ar achlysur Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor 1975. Roedd y ffordd y cyflwynodd Gwyn Erfyl fi yn awgrymu i mi mai tramorwr oedd y Andre Previn 'ma, ac mi sylweddolais yn ddiweddarach bod 'na ryw debygrwydd arbennig ynom ran pryd a gwedd, ac yn steil ein gwalltiau. Yn anffodus doedd gen i ddim gwybodaeth gerddorol, na fawr o ddiddordeb mewn cerddoriaeth glasurol. Oeddwn, roeddwn i'n hollol yn y tywyllwch cyn belled ag yr oedd cefndir gyrfa Andre Previn yn y cwestiwn.

Roedd y Rheolwr Banc yn hynod falch o gael y fraint o'i gyflwyno i ŵr mor enwog ac fe ofynnwyd a fyddwn i'n barod i gyfarfod â'i gyfeillion. Cytunais, a bûm yn ysgwyd llaw a chyfarch tua dwsin neu fwy ohonynt, a diolch i'r drefn, doedd na'r un ohonyn nhw yn nabod Selwyn Griffith. Na, roeddwn nhw'n cael y fraint a'r anrhydedd o ysgwyd llaw hefo Andre Previn. Gofynnodd un ohonyn nhw i mi,

'Have you been in this part of Wales before?'

Bu bron i mi a rhoi'r gêm i ffwrdd pan atebais gydag acen dramor,

'Yes, I have been to Butlins.'

Fel y deallais gan Gwyn Erfyl yn ddiweddarach, dyna'r lle ola y byddai un fel Andre Previn yn ymweld ag o. Do, wrth gwrs, fe ofynnwyd am fy llofnod, ond mi gefais nodyn mewn pryd gyda'r enw 'Andre Previn' arno, neu mac'n eitha posib mai fel Andrew Previn y byddwn i wedi rhoi fy llofnod i'r Rheolwr Banc a'i gyfeillion. Cefais sawl cais i roi perfformiad ar y piano. Gwrthod wnes i, gan ychwanegu fy mod i yno ar fy ngwylliau ac yn edrych ymlaen at dipyn o seibiant a llonyddwch.

Cyn diwedd y noson fe sylwodd y Bancwr parchus iddo gael ei dwyllo, nid yn unig y fo, ond iddo fynnu i Andre Previn gyfarfod â'i gyfeillion yn ogystal. Ia, dyn blin iawn oedd y Rheolwr Banc a ymadawodd â gwesty Bron Eifion y noson honno, ac mi ges innau y rhyddhad o ddod yn ôl fel Selwyn Griffith.

Ond y bore Sul dilynol roedd 'na rai yn dal i goelio bod Andre Previn yn Bron Eifion ac mi gefais ambell gais am lofnod, ac mi ofynnodd un hen wraig i mi a fyddwn i cystal â rhoi tinc ar y piano.

Do, mi wnes i fwynhau'r profiad o fod yn Andre Previn am ychydig ddyddiau, diolch i Gwyn Erfyl am ei wledigaeth, ac mi gymerais fwy o ddiddordeb yng nghyrfar cerddor enwog ar ôl hynny.

O na bawn i'n gerddor dros y penwythnos hwnnw yn Eisteddfod Bro Dwyfor 1975.

DRAENOG

LLEFRITH POETH

Ymddiheuriadau gan werthwr llefrith o'r dyffyn am roi llefrith 'di ferwi i'w gwsmeriaid un bore. Roedd yna esboniad - llosgodd ei law ar y stof cyn cychwyn ar ei rownds. Mae'n gobeithio nad amharodd hyn ar LWNC ei gwsmeriaid a'u bod i gyd wedi dod at eu COED erbyn hyn!

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI



Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

07050 357735



BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

GLADIO

CONSERFATERIS

UN FUNUD FACH

BAND UN DYN

Nid band un dyn mo Dewi Sant. Pa mor bwysig a dylanwadol bynnag oedd Dewi mae'n rhaid cofio mai un o lawer oedd o. Roedd eraill yn pregethu a dysgu'r Efengyl yng Nghymru yr un pryd a'r gŵr y cofiwn ni amdano'n flynyddol ar ddyddiad ei farw. Roedd Dewi'n perthyn i Oes y Seintiau, a barodd yng Nghymru o ganol y Bumed Ganrif i ddiwedd y Chweched Ganrif. Roedd y cyfnod hwn yn amlwg ar ei hanner erbyn amser Dewi. Nid Dewi oedd y cyntaf o'r Seintiau hyn, felly. Roedd dynion fel Dyfrig ac Illtud a Deiniol wedi bod wrth y gwaith o'i flaen, a Dewi o bosibl wedi cael peth o'i addysg yn yr ysgol yr oedd Illtud wedi ei sefydlu yn Llanilltud Fawr ym Mro Morgannwg.

Ac nid band un dyn mo'r diwygiwr Evan Roberts chwaith. Pa mor amlwg bynnag oedd Evan Roberts yn y diwygiad y nodwn eleni ei ganmlwyddiant, mae'n bwysig cofio bod eraill yn rhan o'r cynnwrf mawr a welodd ein gwlad yn 1904-05. Ym mis Medi 1904 y daeth Evan Roberts yn amlwg ym merw'r Diwygiad wedi cyfarfod arbennig ym Mlaenannerch yn Sir Aberteifi. Ond roedd y Diwygiad wedi dechrau cyn hynny, mor gynnar a diwedd 1903 mae'n debyg. Roedd pobl fel Joseff Jenkins a Seth Josua ac R B Jones a Nantlais wedi profi gwres a chynnwrf y Diwygiad fisocdd cyn i Evan Roberts ddod i'r amlwg. Felly nid Diwygiad Evan Roberts mo Diwygiad 04-05 mewn gwirionedd. Roedd llawer mwy i'r Diwygiad na gweithgaredd un dyn.

Wrth gofio'r bendithion ysbrydol a brofodd pobl ein gwlad, o ddyddiau Dewi Sant hyd ddyddiau Evan Roberts, mae'n bwysig gweld y cyfan yn rhan o ddarlun mawr gweithgarwch grasol Duw yn ein plith. Mae'r cyfan yn rhan o waith Duw er cynnal yn ein plith y dystiolaeth i'r gwaith achubol a gyflawnodd yn yr Arglwydd Iesu Grist. Mae Dewi a'i gydweithwyr, ac Evan Roberts a'i gyfeillion yntau, ynghyd â'r holl wŷr a gwragedd a ddcfnodd y Brenin Mawr yn ein gwlad i lddacnu'r Efcngyl dros y cenedlaethau yn gydaelodau a'i gilydd mewn cerddorfa enfawr sy'n seinio clodydd eu Harglwydd a'u Gwaredwr, Iesu.

A thrwy ras, y rhyfeddod mwy yw ein bod ninnau sy'n arddel yr Efengyl heddiw, er gwanned ac er salcd ydym, yn rhan o'r un gerddorfa. Ac os Duw a'i mynn, fe dry ein nodau aflafar ninnau yn y man yn felodiau hyfryd ac yn symffoni soniorus.

JOHN PRITCHARD

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL GYMUNED. Dechreuodd y tymor gyda dwy fyfyrwraig o Goleg Bangor yn ymuno â ni ar gyfer cyfnod ymarfer dysgu. Am y chwe wythnos olaf mae Miss Lowri Morris wedi bod yn gweithio gyda Bl. 5 a 6 a Miss Elen Evans gyda'r Babanod. Braf yw cael rhannu'r newyddion fod y ddwy wedi gweithio'n galed dros ben, ac wedi cael ymarfer llwyddiannus iawn. Llongyfarchiadau i'r ddwy a dymuniadau gorau ar gyfer dychwelyd i'r Coleg.

Yn ddiweddar daeth Anti Mary i'r ysgol i siarad gyda'r plant bach. Fel arfer, roedd pawb yn edrych ymlaen yn fawr iawn i'w gweld, ac wedi mwynhau ei chwmni a'i sgwrs yn fawr iawn. Diolch am eich help unwaith eto, Anti Mary.

Mantelsir ar y cyfle yma i ddiolch i Mr Glyn Mowll am ei garedigrwydd yn cyflwyno bwrdd tenis i'r ysgol, i'w defnyddio gan y plant, y Clwb leuenctid a'r gymuned. Ar ran pob un ohonom, diolch yn fawr iawn i chi, Mr Mowll. Fe wneir defnydd da ohono.

GAIR O DDIOLCH. Dymuna Einir ac Edwin Humphreys a Ceiri, Pistyll, Pwllheli, ddiolch o galon am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd Lleu ar ei enedigaeth. Diolch o galon.

PWYLLGOR NEUADD. Dyma enillwyr Clwb Cant Chwefror: 1. Manon Glyn, Erw Gain, Llanrug; 2. Philip Jones, 8 Bryntirion; 3. Susan Williams, Bryn Rhydd. Gobeithir trefnu ychydig o weithgareddau yn fuan er budd y Neuadd Gymuned.

GWELLHAD. Ein cofion anwylaf atoch chi, y rhai sydd wedi bod yn sal yn ddiweddar a dymunir adferiad iechyd buan i chi oll.

Anfonir y dymuniadau gorau am wellhad buan i Nant Roberts wedi anffawd i'w throed yn ddiweddar. Brysia wella, Nant. **COLLI ANWYLIAD.**

Ein cydymdeimlad dyfnaf â Mrs Elinor Jones, Heather Bank ar golli dau frawd o fewn wythnos i'w gilydd. Rydym yn meddwl amdanoch yn eich colled fawr.

Yn sydyn ac annisgwyl iawn bu farw David (23 Bryntirion gynt) yn Ysbyty Gwynedd ac yntau ond 45 mlwydd oed. Y mae ein cydymdeimlad yn fawr â'i wraig, Rosemary a'i blant, Sarah ac Andrea, ac â'i frodyr a'i chwiorydd, Janice, Gwynfor, Dilwyn, Alwyn, Meirwen a Ceirion.

CROESO CYNNES. Peth braf yw cael croesawu plant y pentref yn ôl i'w cynefin. Croeso cynnes i Sioned (Perthi) a Martin, sydd wedi ymgartrefu yn eu cartref newydd sbon, Llys yr Awel. Cofiwch ymuno â ni yng ngweithgareddau'r pentref. Mae angen gwaed ifanc arnom.

GRONFA'R HENOED. Cynhelir **Bingo Pasg** yn y Neuadd Gymuned nos Wener, 26 Mawrth am 6.30. Croeso cynnes i bawb.

YSGOL SUL BOSRA. Mae addeg physur i ddod gyda dwy Gymanfa ar y gweill. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr eleni yng Nghapel Jeriwsalem, Llanberis a Gymanfa'r Methodistiaid yng

Nghapel Seiloh, Tregarth. **EGLWYS SANTES HELEN.** Fore Sul, 25 Ionawr cynhaliwyd gwasanaeth Derbyn aelodau ifanc Eglwys Llanfair-is-Gaer, Llanddeiniolen ac Eglwys Santes Helen. Gwasanaethwyd gan y Parch Ann Smitham, Mrs Angie Williams a'r Gwir Barchedig Saunders Davies, Bangor. Derbyniwyd 15 o aelodau sef, Alys Hughes, Barry Woodhall, Jennifer Hamer, Christopher Hamer, Gethin Philips, Endaf Jones, Gruffydd Jones, Hanna Williams, Morys Williams, Llŷr Hughes, Rhys Fleming, Mari Fleming, Rebecca Evans, Richard Sturrock a Sophie Hutton. Dilynwyd gyda lluniaeth ysgafn yn Neuadd yr Eglwys.

URDD ADRAN BENTREF

11 Chwefror mwynhawyd Gwaith Llaw gyda Anti Bronwen. Diolch o galon.

25 Chwefror bydd 'Bingo' yng ngofal Anti Jean.

Dymunir pob lwc i'r partïon a'r unigolion sy'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd ar 28 Chwefror.

CLWB IEUANCTID.

Llongyfarchiadau i Sioned Griffith, Tai Arthur, a Catrin Griffith, Cae Corniog, a'u ffrindiau ar gyrraedd yr ail safle yng Nghystadleuaeth Dawnsio Disgo, Clybiau leuenctid Gwynedd ym Mhorthmadog.

Llongyfarchiadau hefyd i Gethin a Lois ar gipio'r wobr gyntaf am ddylunio logo ar gyfer Crys-T. Llongyfarchiadau i'r Clwb am gael cyntaf ar wneud Baner i'r Clwb leuenctid. Ein llongyfarchiadau gwresog ninnau i chwi fel clwb a phob dymuniad da i'r dyfodol. **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU ERYRI A'R CYFFINIAU.** Cynhelir cyfarfod cyhoeddus i sefydlu Pwyllhor Apêl Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau Nos Fercher Mawrth 10fed am 7.30 yn yr ystafell Cymuned. Croeso Cynnes i bawb.



LLONGYFARCHIADAU i Anest Bryn ar ennill Medal Arian mewn Cystadleuaeth Gymnasteg i Ysgolion Eryri (Gwynedd a Môn). O ganlyniad bydd Anest yn cynrychioli Tim Ysgolion Eryri mewn cystadleuaeth genedlaethol ym Merthyr ar 6 Mawrth. Felly, pob lwc i ti Anest, a mwynha dy hun.



Dyma lun a dynnwyd dros chwarter canrif yn ôl; i fod yn fanwl gywir - 1977. Llun ydyw o bwyllgor Penisarwaun ar gyfer codi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Cymru Gaernarfon a'r Cylch. Aelodau o'r pwyllgor oedd - Cadeirydd: Pat Larsen; Trysorydd: Mrs Eluned Jones;

Ysgrifenyddion: Mr Glyn Evans a Mr Tony Elliott; Mr a Mrs Cynrig Hughes, Mr Leslie Jones, Mr Len Jones, Mr a Mrs Tegid Roberts, Mrs Elinor Williams, Mrs Delyth Williams, Miss Phyllis Ellis, Mrs Eluned Porter, Mrs E.M. Pritchard, Miss Price a Mrs E. Lewis.

antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau nwyddau trydanol, yn arbennig poptai, oergelloedd, peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

01286 674 155
www.anturwaunfawr.org

ANTUR
WAUNFAWR

WYDD
ELLLENVAUW LOTERI
GENEDLAETHOL
CYMRU
NATIONAL LOTTERY
CHARITIES BOARD

RADIO AR ALW

A wnaethoch chi golli'r ddrama afaelgar 'na ar Radio Cymru? Neu a hoffech glywed dros och eich hunain ryw gyfweiliad pwysig ar Llinyn Mesur? Neu oes gennych awydd i wrando eto ar hen ffefryn o gân o raglen Ar Eich Cais?

Wel, mae modd gwneud y cyfan bellach, achos mae safle 'Radio-ar-alw' arlein bellach yn fyw ar gyfer Radio Cymru.

Drwy'r safle hwn y mae modd defnyddio eich cyfrifiadur personol er mwyn gwrandao ar 35 o raglenni rheolaidd Radio Cymru ar eich cais. <http://www.bbc.co.uk/radio/aod/radiocymru.shtml>

Bydd y rhaglenni wythnosol yn aros ar y safle am wythnos tan i'r rhifyn nesaf eu disodli. Bydd rhaglenni dyddiol yn aros am ddiwrnod, ac eithrio ar ddydd Gwener, pryd y byddan nhw'n aros dros y penwythnos tan

ddydd Llun.

Y gwasanaeth newydd hwn yw'r ychwanegiad diweddaraf i BBC Cymru'r Byd, gwasanaeth arlein Cymraeg BBC, sydd ar gael ar y cyfeiriad:

<http://www.bbc.co.uk/cymru/>

Meddai Grahame Davies, uwch-gynhyrchydd Cymru'r Byd: 'Eisoes rydym wedi derbyn sawl neges yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth newydd hwn. Mae'n rhoi cyfle i bobl wrando ar raglenni Radio Cymru ar amser sy'n gyfleus iddyn nhw, a hynny o unrhyw le yn y byd.'

Dywedodd fod gwasanaethau Cymraeg BBC Cymru yn dechrau ymddangos ar nifer o wahanol ddulliau newydd o ddarlledu.

Ceir y storïau newyddion Cymraeg diweddaraf ar ffurf testun ar ffônau symudol drwy ddefnyddio'r gwasanaeth WAP. Ewch i:

<http://www.bbc.co.uk/cymru/gwasanaethau/wap.shtml> am fwy o wybodaeth am hyn.

Os oes teledu digidol ntl neu Telewest gennych, fe gewch y newyddion, y tywydd a chwaraeon i gyd yn Gymraeg ar ffurf gwasanaeth testun. Ceir y manylion yma:

<http://www.bbc.co.uk/cymru/gwasanaethau/testun.shtml>

Ac mae Radio Cymru bellach ar gael, nid yn unig ar y radio ac ar y we, ond hefyd trwy Ewrop ar deledu lloeren, ar sianel 904. Hefyd, os oes gennych wasanaeth Freeview, mae Radio Cymru ar gael ar sianel 90. Ac ar wasanaeth cêbl digidol ntl mae Radio Cymru ar sianel 897.

'Mae'r chwyldro technolegol yn cynnig nifer helaeth o gyfleoedd i'r iaith Gymraeg, ac mae'n galonogol iawn i weld bod modd derbyn gwasanaeth Cymraeg mewn cynifer o ddulliau newydd,' meddai Grahame Davies.

Norman Evans a Gwilym Jones, gan ychwanegu pa mor ffodus yw'r Côr o gael pedwar unawdydd - buasai sawl cor yn falch o gael un, heb sôn am bedwar.

Aeth yr arweinydd ymlaen i sôn am y gwahoddiad i ganu yng nghymanfa ganu fawr Gogledd America naill ai yn 2005 neu 2006. Awgrymodd sefydlu gweithgor i edrych i mewn i bob agwedd o hyn, sef y cadeirydd, yr ysgrifennydd, y trysorydd a dau aelod arall o'r Côr, sef Huw Harry Williams a Dafydd Ellis. Y mae'r gweithgor eisoes wedi dechrau ar ei waith. Gan fod angen Côr mawr ar gyfer America, estynnir gwahoddiad i gantorion sydd â diddordeb ymuno, ddod i Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd unrhyw nos Fercher am 7-30 am fwy o fanylion, neu i gysylltu â'r ysgrifennydd neu'r arweinydd.

Bydd y Côr yn canu mewn Cymanfa/Cyngerdd yn Eglwys Dewi Sant Glanadda ar nos Lun 1 Mawrth, i ddathlu Gŵyl Ddewi. Hyd yn hyn y mae gan y cor nifer o gyngherddau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys pump yn Llandudno, un ym Metws y Coed a chyngherdd arbennig hcof côr mawr o America yn y Gadeirlan ar Orffennaf 9fed.

Pan ddechreuwyd y Côr yn Ionawr 1988, 12 aelod oedd yna ac felly y bu am wythnosau lawer. Ar hyn o bryd y mae 49 o aelodau yn dod o ardaloedd Môn ac Arfon, gyda chyfartaledd uchel iawn o'r aelodau ym mynychu pob ymarfer a chyngherdd.

Côr Meibion Dinas Bangor

Cafwyd adroddiad o sefyllfa ariannol iach iawn y Côr gan y trysorydd, Howard Hughes, ac yna adroddodd yr ysgrifennydd am weithgareddau y Côr yn ystod y flwyddyn, gan ddiolch i holl aelodau'r pwyllgor am eu gwaith. Cafwyd adroddiad gan yr arweinydd, James Griffiths, gan gynnwys diolchiadau i'r cyfeilydd, Lowri Roberts Williams, am ei gwaith ar draws 15 mlynedd er pan y dechreuodd ym mis Mehefin 1988, pum mis ar ôl dyddiad cychwyn y Côr yn Ionawr 1988. Diolchodd yr arweinydd a hefyd i'r unawdwyr, Huw Hughes, Bob Thomas,

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i benslynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Yng nghyfarfod blynyddol y Côr etholwyd y canlynol yn swyddogion ac aelodau'r pwyllgor;

Llywydd: Cledwyn Jones, Penrhosgarnedd; Cadeirydd: Robert John Williams, Tyddyn Badin, Pentir; Is Gadeirydd: Dafydd Evans; Ysgrifennydd: David Price, 8 Min Menai, Eithinog, Bangor 362929; Trysorydd: Howard Hughes; Ysgrifennydd Cyngherddau: Arfon Jones; Llyfrgellydd Emrys Hughes Pwyllgor: Y swyddogion a Norman Evans, Sulwyn Davies, David Roberts, Dewi Hughes, John Arthur Owen.

Diolchodd y cadeirydd, Huw Hughes, am bob cydweithrediad yn ystod ei flwyddyn fel cadeirydd ac adroddodd hanes llwyddiant y Côr yn ystod 2003, gyda'r uchafbwynt ym mis Awst pan aeth y Côr i Lorient yn Llydaw i gynrychioli Cymru yn yr ŵyl Geltaidd fawr yno. Diolchodd yn arbennig i'r Llywydd Mr Cledwyn Jones, sydd yn dod yn aml iawn i'r ymarfer ac yn ymddiddori yng ngweithgareddau'r côr. Diolchodd hefyd i James Griffiths, yr arweinydd, am ei waith caled yn codi safon canu y Côr ac hefyd i Lowri Roberts Williams am ei gwaith fel cyfeilydd. Hefyd diolchodd Huw Hughes, i'r Is Arweinydd, Gwilym Lewis o Gaergybi am ei ffyddlondeb i'r Côr, ac am gymryd y Côr yn ystod absenoldeb yr arweinydd pan fydd yn teithio dramor gyda'i waith fel arholwr cerdd.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AG ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon.
Ffôn: (01286) 872275

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu Mrs Roberts, 3 Maes Gerddi.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Enid Price, Stryd Newydd, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn yr ysgol Gymuned nos Lun, 2 Chwefror. Croesawodd Mrs Dorothy Jones bawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Menna Roberts.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gafwyd yn 2002 a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Cafwyd adroddiad gan Mrs Jones ar y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar hyd y flwyddyn a diolchwyd i bawb am y gwaith da oedd wedi ei wneud.

Cafwyd adroddiad gan y Trysorydd, Mrs Joyce Ransom ar y sefyllfa ariannol. Etholwyd swyddogion am y flwyddyn fel a ganlyn - Swyddog Cofrestru: Mrs Dorothy Jones; Ysgrifennydd: Mrs Hilda Orritt; Trysorydd: Mrs Joyce Ransom; Ymwelwyr â'r cleifion: Mrs Enid Taylor (Llanrug) a Miss Meira Williams (Cwm-y-glo). Trafodwyd rhai materion gan Mrs Jones.

Bydd cyfarfod y cyngor yn cael ei gynnal yn y Felinheli ar 27 Ebrill am 10.30. Paratowyd rhaglen am y flwyddyn.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs Joyce Ransom a Mrs Enid Taylor a diolchwyd iddynt gan Mrs Gwyneth Roberts. Rhoddwyd y raffl gan y gwesteion ac fe'i henillwyd gan Gwyneth. Doedd dim arall i'w drafod a therfynwyd trwy adrodd Y Gras.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir
Dinorwig. Ffôn: 870292

CYDYMDEIMLAD. Ar Ionawr 23 bu farw Mrs Nellie Valmai Pritchard, Pen Dyffryn, yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon yn 88 oed. Bu Mrs Pritchard yn cwyno am beth amser. Bu'r angladd yn Eglwys Crist Llandinorwig, a rhoddwyd ei gweddillion ym mynwent yr Eglwys. Yr wyf yn sicr ein bod yn anfon ein cydymdeimlad llwyr â Richard, a boed iddo gael nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma.

Yn meddwl amdanat, Richard, a boed iti gael nerth ac iechyd i wynebu'r dyfodol.

Bistro
LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

CANGEN PLAID CYMRU
Nos Wener, Chwefror 27 am 730
Cinio Gŵyl Ddewi yn Y BISTRO,
Llanberis gydag ALUN FFRED ac
ALWEN Pris: £15.00

Dydd Sadwrn, Chwefror 28, RALI
FAWREDDOG yn y Celtica,
Machynlleth, am 2 o'r gloch fel rhan
o Wyl Cymru yn Ewrop. Dyma Rali
gyntaf DAFYDD IWAN fel Llywydd
Plaid Cymru: dowch i'w gefnogi.

Bydd bws Arfon yn cychwyn o
Sgwâr Llanrug am 9.45 a.m. ac yn
codi yng Nghaernarfon,
Bontnewydd a Phorthmadog ar y
ffordd i Fachynlleth. Pris bws: £5.00
Dyma gynnwys gweddill Gŵyl
Cymru yn Ewrop:

Nos Wener, Chwefror 27,
cyflwyniad gan John Davies ar
Owain Glyndwr yn Sefydliad y
Senedd, a bore Sadwrn, Chwefror
28, trafodaeth ar ddyfodol gwledydd
bychain o fewn Ewrop, gyda Simon
Thomas ac eraill.

Nos Fercher, Mawrth 17, am 7.30
Darlith newydd sbon gan Arwel
Jones (Hogia'r Wyddfa) 'Teithio tu ôl
i'r gan'

Yn Sefydliad Coffa Llanrug Nos
Fercher, Ebrill 21 am 7.30 Noson
yng nghwmni Llywydd y Blaid,
DAFYDD IWAN, Yn Sefydliad Coffa
Llanrug CROESO CYNNES IAWN I
BAWB. Enwau, ac arian, ar gyfer y
cinio, ac enwau ar gyfer y bws i'r
Rali i Llinos G. Davies, Argraff,
Llanrug (Ffôn 674478) erbyn Dydd
Llun, Chwefror 23, os gwelwch yn
dda.

BRYSIWCH WELLA. Anfonwn ein
dymuniadau gorau am wellhad
buan i Mr Ifan Roberts (lanto). Afon
Rhos. Bu'n cael profion arbennig yn
Ysbyty Walton ac mae'n aros i fynd
yn ôl yno eto. Byddwn yn meddwl
amdanoch.

Deallwn fod Mrs Dora Evans, Y
Fedwen, Ffordd yr Orsaf, wedi cael
dod o Ysbyty Eryri ac yn awr yn
aros yng Nghartref Nyrso
Penisarwaun. Brysiwch chithau i
wella hefyd.

DIOLCHIADAU. Dymuna Melfyn a
Sioned, 21 Rhos Rug, ddiolch yn
fawr iawn i bawb am yr holl gardiau,
anrhegion a dymuniadau da
dderbyniwyd ganddynt ar achlysur
genediggaeth eu mab bach, Cian
Sion.

DIOLCHIADAU. Dymuna Angela ac
Eifion, Nant y Glyn, ddiolch am y
caredigrwydd a phob arwydd o
gydymdeimlad pan fu farw mab
cyntafanedig David a Sarah, ac ŵyr
bach iddynt hwythau, yn wyth
niwrnod oed. Diolch am y cardiau, y
galwadau ffôn a'r rhoddion, fydd yn
mynd i Adran Gofal Dwyys Ysbyty
Alderney, Lerpwl.

DYMUNA Emyr Jones (Plymar), 44
Glanffynnon, ddiolch yn fawr iawn
i'w ffrindiau, cymdogion a
chwsmeriaid am eu cefnogaeth a'u
dymuniadau da yn ystod ei gyfnod o
waeledd yn ddiweddar.

MERCHER Y WAWR. Gynhaliwyd
cyfarfod o'r gangen ar nos Fawrth,
10 Chwefror yn y Ganolfan
Gymuned. Croesawodd Eryl, yr Is-
lywydd, pawb i'r cyfarfod.

Bydd y gangen yn cynnal Caffi yn
Eisteddfod yr Urdd a gynhelir yn
Ysgol Brynrefail ar ddydd Sadwrn,
28 Chwefror.

Gofynnwyd i aelodau wirfoddoli i
siarad gydag aelodau
dosbarthiadau Dyseu Gymraeg i
Oedolion.

Bu Beryl yn cymryd rhan yn y
Distawrwydd Noddedig a
gynhaliwyd ar 23 Ionawr - tipyn o
gamp yw cadw'n ddistaw am ddwy
awr.

Cyhoeddwyd y bydd y Cwis Hwyl
eleni yn cael ei gynnal yng Ngwesty
Victoria, Llanberis, ar nos Wener, 2
Ebrill.

Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan
Liz Woodcock, sef y wraig wadd yn
y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13
Ionawr, ar ôl i'r gangen gasglu £47
tuag at gronfa Tear Fund.

Y wraig wadd y tro yma oedd
Llinos Roberts, Cefn Meiriadog,
cyn-Lywydd Is-bwyllgor Cenedl-
aethol Hŵyl a Hamdden. Daeth a
thoreth o enghreifftiau o'r gwaith
llaw a gynhyrchwyd ganddi dros
gyfnod o flynyddoedd ac eglurodd
sut yr oedd wedi cynllunio a gwneud
amryfal eitemau - tegannau i blant,
clustogau melfed, sgarff sidan wedi
ei beintio, clawr llyfr mewn clytwaith
gwallgof, gwaith gwehyddu, powlen
net, gwisg feddydd a ddefnyddiwyd
ar naw achlysur, decoupage,
brodwaith o sawl math, lluniau - o
frodwaith, paent, gwaith peiriant,
gwaith llaw a gwaith canfas, coron o
frodwaith, gemwaith o waith gwnio a
gwehyddu, blychau, jac yn y bocs,
eglwys Rwsiaidd o frodwaith ac i
goroni'r cyfan, dangosodd Llinos pa
mor ddeheuig y gallai fod gyda
gwaith coed. Mae'n bencampwraig
ar ystod eang o grefftiau ac roedd yn
bleser ei chroesawu i roi orig mor
ddiddan i aelodau'r gangen.

Bethanne, Heulwen ac Anwen a
wnaeth y banded ac enillwyd y raffi
gan Mary.

Cynhellir y cyfarfod nesaf ar 9
Mawrth a bydd y gangen yn dathlu
Gŵyl Ddewi yng nghwmni'r Prifardd
leuan Wyn. Bydd pryd bys a bawd
yn caei ei weini yn ystod y cyfarfod
a buasai aelodau'r Pwyllgor yn
gwerthfawrogi cyfraniadau o
ddanteithion bychain.

YR YSGOL GYNRADD.

Dramâu. Yn ystod y mis bu dau
gwmni drama yn diddanna plant yr
ysgol. Mwynhaodd disgyblion yr
adran gynradd a Bl.2 wyllo artistiaid
cwmni Northern Scottish Theatr yn
perfformio eu drama 'Y Pibydd
Brith', a chafodd disgyblion Bl.3 a 4
fwynhad o wyllo Cwmni'r Frân Wen
yn perfformio'r ddrama 'Penci'.

Llongyfarchiadau i James Logan a
Gethin Jones, y ddau o Flwyddyn 5
ar gael eu dewis i gymryd rhan yn y
rhaglen *Hip neu Sgip*.

Llongyfarchiadau i Megan Jones,
Bl.Derbyn ar ddod yn ail mewn
cystadleuaeth lliwio Sam Tân a
drefnwyd gan Y Cymro. Derbyniodd
fagiad o nwyddau yn wobwr ynghyd â
rhaf pethau i'r dosbarth. Diolch yn
fawr iawn i'r trefnwyr.

Dymuna Disgyblion Bl. Derbyn a'r
Meithrin ddiolch i Anti Gwawr am roi
ei hamser i drafod ei swydd fel
Gofalwraig Groesi y Ffordd yr ysgol.
Maent yn dilyn thema 'Pobl Sy'n ein
Helpu'.

Tim Pêl-rwyd. Llongyfarchiadau i
aelodau tim pêl-rwyd yr ysgol ar
gyrraedd y rownd derfynol yng
nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd
ac ar dod yn fuddugol yng
nghystadleuaeth twrnament pêl-
rwyd Arfon.

Yr Urdd. Dymunwn yn dda i'r
aelodau fydd yn cystadlu yn
Eisteddfod Cylich yr Urdd dydd
Sadwrn, 28 Chwefror a nos Iau, 4
Mawrth.

EISTEDDFOD LLANRUG A CHWM Y GLO 2003

Cystadlaethau Llwyfan

Cynradd

Cyn Oedran Ysgol. Unawd: 1.
Llinos; 2. Harri; 3. Osian a
Georgina. Adrodd: 1. Harri; 2.
Osian; 3. Georgina.

Dosbarth Derbyn/Meithrin.
Unawd: 1. Gethin; 2. Alys; 3.
Sion Morris. Adrodd: 1. Alys; 2.
Sion Roberts; 3. Owain, Gethin
a Hanna. Arlunio: 1. Caitlin; 2.
Elliott; 3. Owain Gibbard. Tri
Dimensiwn: 1. Owain Gibbard;
2. Lleucu Brookes; 3. Gwydion
Williams.

Bl.1 a 2: Unawd: 1. Llyr; 2. Nia;
3. Robbyn. Adrodd: 1. Hanna; 2.
Llyr; 3. Bethan. Arlunio: 1. Beca
George a Shannon Christy; 2.
Rebecca; 3. Hanna Huws
Tulliver. Tri Dimensiwn: 1. Mari
Gibbard; 2. Gwern Brookes; 3.
Beca George.

Bl. 3 a 4: Unawd: 1. Chloe; 2.
Cara; 3. Anna a Rhys. Adrodd:
1. Anna; 2. Morus; 3. Tomos.
Arlunio: 1. Conor Hardy; 2.
Danny Barton; 3. Osian Davies.
Tri Dimensiwn: 1. Rhodri
Brookes; 2. Tomos H. Tulliver; 3.
Anna Wyn Jones.

Bl. 5 a 6. Unawd: 1. Heledd; 2.
Debbie; 3. Lisa. Adrodd: 1.
Heledd; 2. Gwenno; 3. Rhian.
Arlunio: 1. Tom Chetwode-
Barton; 2. Gwenno Gibbard; 3.
David Fleetwood. Tri
Dimensiwn: 1. Gwenno Gibbard;
2. Deian Williams; 3. Ieuan
George.

Parti Unsain. 1. Bl. 5 a 6
(Llanrug); 2. Bl. 3 a 4 (Llanrug).
Parti Llefary: 1. Parti'r Dynion
Pwysig (Llanrug); 2. Parti curo
Rwsia (Llanrug). Unawd
Offerynol: 1. Heledd ac Elain;
Parti Dawns Werin: 1. Parti
Chris a Heledd (Llanrug).

Uwchradd

Cyflwyniad Cerddorol Unigol: 1.
Beverley. Dawnsio Disgo: 1. Elin
Haf Williams; 2. Rhian ac
Emma. Unawd Offerynol: 1.
Cheryl.

Bl.7 a 8. Arlunio: 1. Elin Haf
Williams. Tri Dimensiwn: 1. Elin
Haf Williams.

Bl. 9-12. Tri Dimensiwn: 1.
Megan Jones.

Bl. 11 a 12. Arlunio: 1. Dafydd
Meredydd Williams; 2. Megan
Jones; 3. Megan Jones.

Perfformiad Offerynnol
Gorau: Cheryl.

Unigolyn gorau yn y
cystadlaethau canu ac
adrodd: Heledd.

Enillydd Cadair Lowri: Llyr.

Celf a Chrefft - Cwpan Emma
Bernard: Shannon Christy.

Dylunio Cyfrifiadurol

Babanod. 1. Gwydion Rhys
Williams; 2. Beca George; Adran
lau: 1. Hannah Wilson; 2. Rhodri
Brookes; 3. Lowri Ffion Jones a
Natasha Sellers. Uwchradd: 1.
Elin Haf Williams

Tecstilïau

Babanod: 1. Llinos Roberts. Iau:
1. Ffion Wyn Roberts.
Uwchradd: 1. Elin Haf Williams.
Agored. 1. Menna Williams; 2.
Mrs D.I. Jones; 3. Mrs D.I.
Jones.

Coginio

Ffotograffiaeth

1. Lleucu Brookes; 2. Rhodri
Brookes; 3. Rhodri Williams ac
Anna Wyn Jones.

Gosod Blodau

1. Siw Brookes.

Coginio

Meithrin/Derbyn: 1. Gwydion
Rhys Williams; 2. Llinos
Roberts; 3. Lleucu Brookes ac
Owain Gibbard.

Bl.1 a 2: 1. Mari Gibbard; 2.
Gwern Brookes.

Bl.3 a 4: 1. Rhodri Brookes.

Bl. 5 a 6: 1. Deian Williams; 2.
Gwenno Gibbard.

Chutney. 1. Menna Williams
Jam/ Marmalead: 1. Dafydd M.
Roberts. Dynion: 1. Vaughan
Williams.

Llenyddiaeth

V Gadair: Debbie Hughes.

Tlws yr Ifanc. 1. Gwion Dafydd;
2. Elain Roberts

Bl. 3 a 4: 1. Ffion Erin Williams;
2. Aled Jones; 3. Emma Smith.

Bl. 5 a 6: 1. Gwion Dafydd; 2.
Tom Chetwode-Barton; 3.
Heledd Roberts.

Bl. 7: 1. Elin Haf Williams.

Bl. 8 a 9: 1. Declan Jones.

Bl. 10 a 11: 1. Debbie Hughes;
2. Megan Jones.

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL

TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

**Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd**

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

CHWILOTA

CYSYLLTIADAU AMERICANAIDD



Ymis diwethaf cafwyd adroddiad gan Rhian Williams ar ei hymweliad â'r America. Soniodd am ei hymdrech i ymweld â rhai o'r llefydd y sefydlodd aelodau o'i theulu ynddynt pan aethant drosodd o Lanberis yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Soniodd hefyd am gysylltiadau eraill â bro'r 'Eco', sef teuluoedd o Benisarwaen a'r Fachwen. Y syndod yw fod gwybodaeth am rai o'r teuluoedd hyn wedi eu anfon i mi o fewn llai na phythefnos o gyhoeddi'r rhifyn diwethaf o'r 'Eco'.

Daeth llond amlen o nodiadau a gwybodaeth werthfawr i law oddi wrth W. Arvon Roberts, Pwllheli. Mae wedi bod yn gohebu o'r blaen ynglŷn â theuluoedd Proscairon, a'r mudo o Landdeiniolen. Y tro hwn, roedd ganddo wybodaeth uniongyrchol am deulu Rhian Williams, sef hanes ei hen, hendaidd a'i hen, hen-nain, Griffith a Hannah Evans.

Roedd Griffith Evans yn fab i Evan a Margaret Prichard, Cac Bach, Waunfawr. Fe'i ganed yn 1808. Derbyniodd ei addysg gynnar yn yr Ysgol Sul, ac yn ddydd ieuanc, roedd yn cynorthwyo gyda'r canu cynulleidfaoel yn y capel. Pan oedd tua ugain oed, priododd â Hannah, merch David a Mary Hughes, Penrallt, Waunfawr. Erbyn 1840 roeddent wedi symud i Lanberis i fyw, ac yn 1855 mudodd y teulu i West Bangor, Pennsylvania. Yr oedd tri o'i feibion eisoes wedi mudo yno'n barod, a'r bwriad oedd i weddill y teulu ymuno â hwy. Ond wythnos cyn i'r teulu gyrraedd, bu farw Evan, un o'r tri mab oedd eisoes yn America.

Bu farw Hannah Evans ar yr wythfed o Hydref 1866 a chladdwyd hi yn West Bangor. Cyhoeddwyd cofiad iddi gan y Parch Evan Foulk Jones, a ymddangosodd yn Y Cyfaill (Chwefror 1867). Yn yr un rhifyn cyhoeddwyd pregeth angladdol a draddodwyd gan y gweinidog. Bu Griffith Evans farw ar y pedwerydd ar ddeg o Hydref 1873, a cheir cofiad iddo yntau hefyd gan y Parch E. Foulk Jones. Yn y cofiad hwnnw, nodir fod saith o blant o'r briodas - 'dau wedi marw, dau yn West Bangor a thri yn Lanberis.' Hendaidd Rhian Williams, sef John Evans oedd un o'r tri a ddaeth yn ôl i Lanberis. Pwy tybed oedd y ddau arall?

Gyda throad y post hefyd daeth dau lythyr yn cadarnhau cysylltiad Robert Jeffrey Junior â'r Fachwen - a hynny gan aelodau eraill o'r teulu. Neville Roberts o Prestatyn (Llanrug gynt) a anfonodd i ddweud fod dau o frodyr ei daid wedi ymfudo i'r America o Graig y Fachwen tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cadarnhawyd hynny mewn llythyr arall gan Geraint Huws Roberts, Bangor (Llanrug

gynt), un arall sy'n hannu o deulu'r Jeffrey. Mae holl deulu Jeffrey ym mro'r 'Eco' yn hannu o Robert Jones Jeffrey o Laniestyn, a'i wraig Martha, a ymsefydlodd ym Mwllch y Groes uwchben y Clegir a Llanberis. Mae disgynyddion lu iddynt yn parhau i fyw yn y fro, ac eraill ar wasgar - gan gynnwys America! Gyda llaw, mae rhan o'u coeden deulu wedi ei chyhoeddi yn *Achau rhai o deuluoedd hen siroedd Caernarfon, Meirionnydd a Threfaldwyn* gan Ceiri Griffith. (Rhif 102).

Ymwelodd Robert Jeffrey Junior ag ardal yr 'Eco' rai blynyddoedd yn ôl pan oedd yn fyfyrwr yn Aberystwyth. Mae ei dad, Robert Jeffrey, yn gohebu â Geraint Huws Roberts, ac yn medru rhywfaint o Gymraeg. Mae'n ddarlithydd yng Ngholeg William a Mary, Williamsburg, Virginia, ac yn diddori llawer yn hanes Goronwy Owen o Fôn.

Mae Robert Jeffrey yn ddisgynydd uniongyrchol o Robert Owen Jeffrey, Craig y Fachwen, a ymfudodd i ardaloedd chwarelyddol Arfon, County Buckingham, Virginia. Aeth y brawd arall, Samuel, i ardal Slatington, Pennsylvania.

Yr hyn sy'n ddiddorol ynglŷn â'r holl hanes teuluol hwn yw'r ffaith fod y cyfenw Jeffrey wedi ei golli ym mro'r 'Eco' (er ei fod wedi ei gadw yn aml fel enw bedydd ar lawer o'r disgynyddion), ond i'r cyfenw gael ei gadw yn America.

Carthen Pwllheli

Daeth dwy alwad ffôn arall yn ystod y mis i gadarnhau bodolaeth dwy garthen arall - un yn Nhowyn, Meirionnydd (ond yn wreiddiol o ardal Lanberis), a'r llall ym Montnewydd. Mae'n syndod faint o'r cartheni hyn sy'n dod i'r amlwg bellach. Daliwch ati i anfon gwybodaeth os gwelwch yn dda.

Beuno Jones ac Ysgol Tan y Coed

Parhau mae'r ymatebion i hanes y prifathro o Benisarwaen. Anfonodd Neville Roberts, Prestatyn, cnghraifft o'i lawysgrifen (gweler gyferbyn). Ei fam, Annie Catherine Williams, Bryn Pistyll, Pont-rhythallt, a ddaeth i'r brig yn arholiadau'r 'scholarship' yn 1902, ddwy flyncdd wedi agor yr Ysgol Sir ym Mrynrefail. Cyflwynwyd llyfr

iddi gan y prifathro 'to remind her of her success in heading the list of County Scholars in the Llanberis District County School... With best wishes for a bright and brilliant future.' Erbyn heddiw, mae gor-wyrion Annie Catherine yn ddisgyblion yn ysgol newydd Penisarwaen ac ysgol newydd Brynrefail.

Ac o sôn am ddisgyblion Ysgol Tan y Coed yn ennill prif wobrau'r 'scholarship', daeth cadarnhad mai Mary Ellen Parry oedd yr eneth a ddaeth i frig y rhestr yn 1911. Daeth galwad ffôn i gadarnhau hynny gan nith iddi, sef Gwyneth Lloyd Williams, o Abergele, Mae llyfr o ddramâu Shakespeare ganddi, a gyflwynwyd i Mary Ellen Parry am waith da mewn Hanes a Saesneg yng Ngorffennaf 1912. Merch Tŷ Gwyn, Penisarwaen oedd Mary Ellen, ac yr oedd ei mam, Jane Parry (Morris cyn priodi) yn athrawes yn yr ysgol am gyfnod.

Graddiodd Mary Ellen Parry ym Mangor yn 1919. Symudodd y teulu i fyw i'r Fron Hyfryd, Llanrug, a daeth Mary Ellen yn athrawes i Lanrug. Roedd yn cael ei hadnabod yno fel Miss Parry, B.A. Bryd hynny, roedd pob un o athrawon ac athrawesau Ysgol Ganol Llanrug â graddau

The Gift of

J. Beuno Jones,
Head Master,
Penisarwaen Board School
to
Miss Annie Catherine Williams
Bryn Pistyll
Pont-rhythallt

to remind her of her success in heading the list of County Scholars in the Llanberis District County School
1st August 1902.

With best wishes for a bright and brilliant future.

prifysgol. Roedd y teulu yn aelodau o Gapel Hermon, a hithau'n athrawes Ysgol Sul. Bu farw'n ddi-briod yn niwedd 1941. Gobeithiwn gynnwys lluniau o gyfnod cynnar Ysgol Tan y Coed yn rhifynnau nesaf yr 'Eco'.

Gyda diolch i bawb a gysylltodd ar y ffôn neu drwy lythyr. Daliwch ati gyda'ch ymholiadau a'ch pytiau gwybodaeth am unrhyw agwedd o hanes bro'r 'Eco'. Anfonwch i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites. Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm
9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

STEPHEN JONES

+ Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

IONAWR 2004

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn 'Angorfa', Llanberis ar nos Iau y 29ain o Ionawr, 2004.

[Bu'n rhaid gohirio cyfarfod Rhagfyr 2003 yn absenoldeb anorofod y Cadeirydd a'r is Gadeirydd, a gohiriwyd cyfarfod Ionawr oherwydd gwaeldd mam y Clerc.]

Ymddiheuriadau

Carys Morris. Gavin Allsup

Presennol

Ward Padarn: Emlyn Bayliss, Olwen Gwilym, Derek Jones, Kenneth Jones, Fred Owen, Douglas Pritchard, Helen Sharp, Ward Peris: Anne Cumberton, Dei Tomos (Cadeirydd)

Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Iau yr 20fed o Dachwedd, 2003, fel rhai cywir.

Materion yn codi o'r cofnodion

1) Derbyniwyd llythyr oddi wrth Iwan Evans, Cyngor Gwynedd (CG) mewn perthynas a'n cwyn ynglŷn â goryrru yn y Nant. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor godi arwyddion ychwanegol i dawelu'r

drafndiaeth ac i wella'r marciau sydd ar y ffordd. Dylai cynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned (CC) fod yn bresennol pan gynhelir archwiliad o'r ffordd gan CG. Mae'r CC yn barod i gyfarfod y gost ychwanegol o godi arwyddion. Byddai cyfraniad y CC yn 75%.

2) Ar gais Pwyllgor Llywio yr Eisteddfod Genedlaethol (EG), a gynhelir yn y Faenol yn Awst 2005, penderfynwyd galw cyfarfod cyhoeddus er mwyn ffurfio Pwyllgor Apêl lleol i godi arian at Gronfa'r Eisteddfod. Dyddiad y cyfarfod fydd y 25ain o Chwefror, yn 'Angorfa' am 7 yr hwyr. Bydd angen ei hysbysebu'n eang, ac apelio ar bobl i ddod yno. Penderfynwyd cyfrannu £2000 eleni a £2000 o gyllid y flwyddyn ariannol nesa at y Gronfa leol. Mae nod Llanberis a'r Nant yn £6,950 sy'n seiliedig ar boblogaeth o 1986 yn ôl £3.50 y pen i ardaloedd o fewn 15 milltir i'r Eisteddfod. Cynnig: AC, Eilio: DP.

3) Trafodwyd penodiad heddwas newydd i Lanberis, i

weithredu fel Rheolwr Parth Cymunedol (Community Beat Manager). Mynegwyd siom na chafodd y CC wybod am benodiad yr Heddwes, 1609 Peter Willdigg, a mynegwyd pryder ei fod yn ddi-Gymraeg. Holwyd a oedd yn byw yn yr ardal? Penderfynwyd anfon gwahoddiad ato i ddod i gyfarfod buan o'r CC i ni gael deall beth fydd ei swyddogaeth a'i weledigaeth ar gyfer y gymuned yn y dyfodol. Cynnig: KJ, Eilio: FO.

4) Adwy Cyf: cafwyd adroddiad byr gan EB ynglŷn â gobeithion y cwmi yn y dyfodol. Mae'r Cwmni Tref yn edrych ar ddefnydd posib i nifer o siopau gwag ar hyn o bryd. Gofynwyd a oedd gwahoddiad wedi mynd i Gwynfor Dafydd, swyddog newydd Adwy Cyf, i ddod i gyfarfod y Cyngor?

Penderfynwyd anfon un arall rhag ofn.

Ceisiadau Cynllunio

- a) CO3A/0713/15/LL - 27 Stryd Fawr, newid defnydd o dŷ i swyddfa: Dim sylwadau ***
- b) CO3A/0706/15/LL - 54 Maes Padarn, Codi Garej: Dim gwrthwynebiad
- c) CO3A/0757/15/AM - 9 Rallt Goch, Codi tŷ ar lain o dir cyfagos: Dim gwrthwynebiad
- ch) NP3/15/LB38B - Capel Rehoboth, Nantperis, creu ramp i ddrws y festri (Adeilad Rhestredig): Dim gwrthwynebiad
- d) NP3/15/LB38A - Capel Rehoboth, Nantperis, newidiadau mewnol (Adeilad Rhestredig): Dim gwrthwynebiad
- dd) CO3A/0741/15/LL - Marteg, Stryd Fawr, Codi tŷ: Dim gwrthwynebiad ***
- e) CO4A/0738/15/LL - 'Green Bank', 54 Stryd Fawr, newid defnydd o Siop i Olchfa: Dim gwrthwynebiad ***
- f) CO3A/0787/15/LL - 16 Ffordd Tŷ Du, estyniad i'r tŷ: Dim gwrthwynebiad

(***Eisioes wedi eu caniatáu)

Ceisiadau Cynllunio a ganiatawyd

- 1) CO3A/0629/15/LL - Dymchwel adeilad a chodi tŷ - 50 Stryd Fawr

- 2) CO3A/0635/15/LL - Estyniad deulawr - 20 Ffordd Tŷ Du
- 3) CO3A/0603/15/LL - Estyniad, mynedfa a garej - 19 Ffordd Capel Coch
- 4) CO3A/0713/15/LL - Newid defnydd o dŷ i swyddfa hyfforddi - 27 Stryd Fawr
- 5) CO3A/0738/15/LL - Newid defnydd siop i olchfa - 'Green Bank' 54 Stryd Fawr
- 6) CO3A/0741/15/LL - adeiladu tŷ, Marteg, Llanberis
- 7) CO3A/0539/15/LL - estyniad Maes Padarn

Newidiadau yn y Pentref

Cyfeiriwyd at y newidiau sydd ar droed yn y pentref, yn arbennig y gwaith ffordd a ddechreuwyd ger Y Ganolfan, a'r darn eang o dir y Ddôl a ddefnyddiwyd. Mynegwyd pryder na chafwyd ymgynghori cyn i'r gwaith ddechrau, gan fod yma newidiadau sylweddol a chostus yma. Holwyd ai arian 'Yr Allwedd Gwyrdd' a ddefnyddiwyd?

Ceisiadau am Gymorth am Ariannol (Grantiau Bychan Blynnyddol)

Ar sail y ceisiadau a dderbyniwyd, penderfynwyd rhoi cymorth fel a ganlyn i'r isod.

- Clwb y Castell - £50;
- Tîmau Pêl-droed (5) - £350;
- Teganfa Gwynedd - £50;
- Capel Rehoboth Nantperis - £100 (yn amodol fod y Capel yn parhau ar agor);
- Brownies / Rainbows - £100;
- Clwb Tŷ Dol / Minature Club - £50;
- Eco'r Wyddfa - £400;
- Cronfa Goffa R H Owen - £300;
- Clwb/Ysgol Feithrin Llanberis - £1280 (i.w dalu'n chwarterrol fel rhent i'r Ganolfan, Llanberis).

Ni chafwyd cais am arian tuag at gostau goleuo pentref Llanberis y Nadolig nesaf. Penderfynwyd neilltuo arian yn y Praesebiad nesa at hynny. Cynnig: FO, Eilio: DJ.

Priseb

Gan y byddwn yn cyfarfod eto ymhen tair wythnos penderfynwyd cynnal y priseb bryd hynny.

(Parhad ar dudalen 11)

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS Clerc i'r Cyngor

Oes ganddoch chi ddiddordeb mewn materion lleol? Fedrwyd chi weithio'n drefnus ac effeithiol, ar eich pen eich hun, ac ysgrifennu Cymraeg cywir?

Mac Cyngor Cymuned Llanberis yn chwilio am Glerc i weinyddu a gweithredu ar ei ran. Mae'n chwilio am berson cyfrifol a brwdfrydig yn byw yn lleol, byddai adnabyddiaeth o'r ardal o gymorth mawr.

Telir cyflog yn unol a Graddfa Clercod Cyngorau Lleol yn seiliedig ar nifer penodol o oriau'r mis. Telir treuliau.

Cysylltwch yn y lle cynta â Dei Tomos, Cadeirydd y Cyngor, ac anfonwch eich cais ato erbyn 15 Mawrth 2004.

Dei Tomos, Ty'n Twll, Nantperis. LL55 4UL
(01286) 871250

GORSAF BETROL
ESSO BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Jones

Contractwyr
Trydan

Goleuadau
Argyfwng ac
otter Larwm Tân

Gwasanaeth i
Cymru Gyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan
Eisteddfod yr Urdd
a'r Genedlaethol

&

Whitehead Cyf.

Prif swyddfa

Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

YSGOL BRYNREFAIL

Llwyddiant Bôrd

Ar brynhawn gwlyb ym Mhenisarwaen, daeth criw talentog o fechgyn Ysgol Brynrefail at ei gilydd i arddangos eu sgiliau sglefrfyrdio yn 'sgubor un o'r bechgyn. Mae Llŷr Roberts, o flwyddyn 9, yn ddigon ffodus i fod yn berchen ar ystafell bwrpasol ar gyfer sglefrfyrdio sy'n cynnwys yr offer angenrheidiol, megis hanner peipen, bariâu greindio a rampau. Bu'r bechgyn wrthi'n ddiwyd, fel y gwelwch yn y lluniau, yn arddangos eu sgiliau anhygoel. Cwmni teledu Boomerang o Gaerdydd oedd y tu ôl i hyn, gan eu bod yn cynnal clyweliadau ledled Cymru ar gyfer cyfres deledu arfaethedig o'r enw

'Bôrd.' Bydd y rhaglen yn sôn am bob math o ddiddordebau byrddio - o'r byrddio traddodiadol i'r mathau diweddaraf o cirfyrdio a hwyl fyrdio. Cafodd John Williams, Llŷr Roberts, Josh Royle, Gethin Roberts, Owen Bracegirdle a Dewi Foulkes (o flwyddyn 9) a Zoot Warren (o flwyddyn 7) glyweliad i naill ai gyflwyno neu i ymddangos fel arbenigwr sgiliau ar y gyfres. Llwyddiant anhygoel felly, oedd i Llŷr Roberts gael ei ddewis ar gyfer y rhaglen hon!! Bydd y cwmni'n dychwelyd i Benisarwaen i ffilmio mwy o'r criw ac yn defnyddio arbenigedd Llŷr yn y gyfres - LLONGYFARCHIADAU i bob un ohonoch!



Ydych chi'n gwybod beth yw sglefrfyrdio?

Dyma rai o'r sgiliau allweddol:

- 1) Yr Oli: Sefwch ar y bwrdd, llithrwech y droed flaen i fyny, neidiwch i'r awyr, a glaniwch ar y bwrdd.
- 2) Yr Oli 180°: Fel yn rhif 1, ond yn yr awyr, ceisiwch droi cich corff rownd tro.
- 3) Fflip-gic: Rhowch un droed ar ongl 45° ar y bwrdd; ffliciwch y bwrdd i'r awyr, a cheisiwch lanio arno.
- 4) Fflip-ffer: Rhowch belen eich troed i hongian ar ochr hir y bwrdd, ciciwch allan ar raddfa o 45°; gadewch i'r bwrdd droelli, ac yna ceisiwch lanio arno.

Swnio'n hawdd?? Pob lwe!!



Cwpan Pêl-droed dan 16 oed Ysgolion Gogledd Cymru

Ysgol Brynrefail, Llanrug 2 - O Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch

Yn dilyn buddugoliaethau o 4-2 yn erbyn Ysgol Gyfun Llangefni; 2-0 yn erbyn Ysgol John Bright Llandudno a 2-1 yn erbyn Ysgol y Berwyn Y Bala roedd tîm pêl-droed dan 16 Brynrefail wedi cyrraedd ffeinal Rhanbarth Eryri o Gwpan Ysgolion Cymru. Chwaraewyd y gêm brynhawn Mercher 21 Ionawr 2004 yn erbyn tîm Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch a'r gae Ysgol Syr Hugh Owen Caernarfon.

Agorodd y gêm gyda'r Moniars yn cael y gorau o'r chwarae ond, gyda ond rhyw bum munud wedi mynd a gyda'i hymosodiad cyntaf, aeth Brynrefail ar y blaen gyda gôl gan y blaenwr Guto Llywelyn. Yn dilyn cyd-chwarae da rhwng Kyle Collins a Steven Davies ar yr asgell, derbyniodd Guto'r bêl a'i tharo i gefn y rhwyd.

Rhoddodd hyn hyder i chwaraewyr Brynrefail a nhw nawr oedd yn rheoli, a chyn bo hir daeth gôl arall, gyda Guto Llywelyn yn sgorio ei ail. Tarodd y canolwr Gareth Jones bêl hir o'r cefn, dros gefnwyr Ysgol Syr Thomas Jones, a pheniodd Guto'r bêl dros y gôl-geidwad ac i'r rhwyd. Gyda Brynrefail yn dal i reoli bu ond y dim i Guto gael ei drydedd gôl ond tarodd ei beniad o gic cornel y trawst. Cyn diwedd yr hanner cyntaf daeth y Moniars yn ôl i'r gêm yn gryf gyda chwarae da i lawr y ddwy asgell, gan gael ambell gyfle i sgorio.

Parhaodd yr ail hanner yn gystadleuol iawn gyda'r chwarae yn symud o un pen o'r cac i'r llall.

Er na bu mwy o sgorio bu amryw o gyfleon i'r ddau dim, gyda'r agosaf i Frynrefail yn ergyd o hanner ffordd gan Joseph Simpson ond a darrodd y trawst yn galed iawn. Bu'r Moniars yn anlwcus pan darodd eu blaenwr y bêl dros ben y gôl-geidwad, Iwan Machno, ac fel roedd hi'n croesi'r lein daeth y cefnwyr, Kyle Collins, o rhywle a'i chlirio.

Buasai gôl i Ysgol Syr Thomas Jones yr adeg ymo wedi gwneud yr amser a oedd yn weddill yn nerfus iawn i chwaraewyr, hyfforddwr a chefnogwyr Ysgol Brynrefail. Daeth y chwiban olaf gyda'r canlyniad o 2-0 i Frynrefail a oeddent, ar y cyfan, yn ei haeddu.

Yn dilyn y gêm, llongyfarchodd Mr Bryn Williams, Athro Ymarfer Corff Ysgol Syr Hugh Owen, y ddau dim ar eu hymrwymiad, ymddygiad a safon y chwarae ac am ddifyrru'r gwylwyr gyda gêm dda. Rhaid hefyd oedd canmol y dyfarnwr ifanc, Iwan Jones am reoli'r gêm yn dda iawn ac yn ddi-ffwdan. Cyflwynodd Mr Williams y tlws i gapten Ysgol Brynrefail, Guto Llywelyn.

Mae'r fuddugoliaeth yma yn rhoi yr hawl i Ysgol Brynrefail chwarae gartref yn erbyn tîm o'r de yn 16 olaf Cwpan Cymru gan obeithio ennill, mynd ymlaen i'r rownd nesaf ac ymlaen wedyn i'r ffeinal i ennill tlws Cymru. Bu'n rhaid i dim Ysgol Thomas Jones deithio i'r de i chwarae eu gêm hwy. Efallai y daw Brynrefs a'r Moniars wyneb yn wyneb unwaith eto yn ffeinal Cymru; pwy a wŷr.

IWAN MACHNO LLOYD
22 Ionawr 2004

Gala Nofio Cenedlaethol yr Urdd

Dyma ddigwyddiad blynyddol pwysig yng nghalendr yr ysgol yn sgil y ffaith fod gennym gymaint o nofwyr arbennig o dda yma ym Mrynrefail. Felly, ar Nos Wener wlyb a thywyll cychwynodd mintai o ddwsin tuag Abertawe i gystadlu yng Nghala Nofio Cenedlaethol Cymru. Bu cystadlu brwd, a llwyddodd y criw i gipio dim llai na NAW medal aur a Dwy arian yn y gystadleuaeth!! Dyma'r canlyniadau:

Tîm Cyfnewid Rhydd Bechgyn
Blwyddyn 11+ - 1af

Tim Cyfnewid Cymysg
Bechgyn Blwyddyn 11+ - 1af

Nofio Rhydd Bechgyn

Blwyddyn 11+ - 2il: Eifion Williams

Nofio Cymysg Unigol
Blwyddyn 11+ - 1af: Eifion Williams

Nofio Broga Bechgyn
Blwyddyn 11+ - 4ydd: Gwion Owen

Nofio Cefn Bechgyn Blwyddyn
11+ - 6ed: Gwion Owen

Nofio Pili pala Genethod
Blwyddyn 11+ - 2il: Nikki Hill

Nofio Broga Genethod
Blwyddyn 11+ - 4ydd: Nikki Hill

Nofio Cymysg Unigol Bechgyn
7-8 - 6ed: Iwan Arwel

Llongyfarchiadau i chi i gyd!!

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partion, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

(Parhad o dudalen 9)

Gohebiaeth

1) Cymdeithas y Cerddwyr - gofynnwyd i DP ddarllen y ddogfen a ddaeth i law.
2) Barry Davies (BD) - llythyr a anfonwyd oddi wrtho at BT, ac at y Cyngor ynglŷn â chodi polion teleffon ger gorsaf newydd Rheilffordd y Llyn. Doedd y cyngor ddim wedi derbyn llythyr o'r blaen, ond roedd na gytundeb y gellid tanddaearu llinellu yn hytrach na brechu'r ardal a rhagor o bolion. Penderfynwyd cael gair â BD, ac anfon gair at BT i'w gefnogi. Roedd hefyd wedi codi cwestiwn ynglŷn â chynnwys tir rhwng Stryd Olgra a Stryd Warden ar gyfer datblygu o fewn Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd. Roedd yn gwrthwynebu, ac wedi anfon at un o swyddogion polisi Gwynedd ynglŷn â hynny. Penderfynwyd ei gefnogi.

Unrhyw Fater Arall

- 1) Gofynnwyd a oedd Llinos Jones wedi dwud unrhywbeth pellach ynglŷn â chario mlaen gyda'i swydd fel Clerc y Cyngor. Rai misoedd yn ôl fe soniodd ei bod yn gweld y gwaith yn ormod iddi. Dywedodd AC y byddai'n cael gair personol â hi.
- 2) Bin Sbwriel ger Ty'n Llan, Nantperis / Biniau Baw cŵn: Adroddwyd nad oedd y bin rhwng Ty'n Llan a'r Ciose Ffôn wedi ei drwsio eto, a holwyd lle'r oedd y Biniau Baw cŵn a archebwyd.
- 3) Y Rhiw i'r Ysgol: Cyfiriwyd at gyflwr y rhiw un bore rhewllyd yn ddiweddar, a'i bod yn beryglus. Penderfynwyd cael gair a'r Prifathro.
- 4) Cabinet: Derbyniwyd cais caredig DJ i gynnig cabinet ffeilio i'r Cyngor i'w leoli yn 'Angorfa'.
- 5) Y Fynwent: Adroddwyd fod darn bychan o dir, oherwydd ei gyflwr ger wal gefn y Fynwent, yn anaddas ar gyfer claddu. Penderfynwyd ei ddefnyddio, mae o law, ar gyfer claddu llwch.

CYNHELIR Y CYFARFOD NESAF NOS IAU, 18 CHWEFOR 2004. Byddai'n ddymunol cael presenoldeb pawb.

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

CHWEFOR 2004

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn 'Angorfa', Llanberis ar nos Iau y 19eg o Chwefor, 2004.

Ymweliad

Estynnwyd croeso cynnes i'r heddwas Peter Willdigg a benodwyd yn ddiweddar fel Rheolwr Parth Cymunedol ar gyfer Llanberis ac ardaloedd cyfagos, yn cynnwys Llanrug a Deiniolen. Ei fwriad yw gweithio gyda'r trigolion ac yn arbennig pobl ifanc yr ardal. Bydd yma am o leia dair blynedd, ac roedd hynny yn galonogol o safbwynt y Cyngor Cymuned, sydd wedi gweld mynd a dod garw a diffyg sefydlogrwydd ymhlith swyddogion yn ddiweddar. Mae'r heddwas yn bwriadu trefnu gweithgareddau, fel pêl-droed, i gadw pobl ifanc oddi ar y stryd ar nos Wener, ac mae bwrdd snwcer wedi ei archebu. Dywedwyd y bydd modd cysylltu â'r heddwas ar ei ffôn symudol, ond yn naturiol fydd dim modd iddo fod ymhob man yr un pryd. Dywedodd y bydd ar ddyletswydd pan fydd mwya o'i angen.

Adroddwyd fod Carys Morris ac eraill a'u bryd ar ffurfio Grŵp Gweithgarwch, ac fe drefnir cyfarfod cyhoeddus nos Lun, y

15fed o Fawrth, yng Ngwesty'r Fictoria i geisio mynd a'r maen i'w wal. Bwriad yr heddwas ydi gweithio gyda phobl, a thrwy hynny reoli'r problemau anghymdeithasol. Heddweision eraill fydd yn delio â throeddau.

Dymunwyd yn dda iddo yn ei waith.

Ymddiheuriadau: Dim

Presennol

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Olwen Gwilym, Derek Jones, Fred Owen, Douglas Pritchard, Helen Sharp, Gavin Allsup, Ken Jones, Carys Morris.

Ward Peris: Dei Tomos (Cadeirydd)

Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Iau yr 29ain o Ionawr 2004, fel rhai cywir. [Cytunodd HS i gofnodi eto'r mis hwn fel y mis diwethaf]

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddodd DT ei fod wedi cael gair a H Lynne Jones, un o swyddogion Adran Prifffyrdd Cyngor Gwynedd (CG), ynglŷn â'r ffordd ger caffi 'Pete's Eats', a'r ffaith nad oedd y gwaith a addawyd i'w gwneud yn unffordd, ar ôl creu bylchau parcio, wedi ei gwblhau. Roedd wedi ei hatgoffa mai dymuniad lleol oedd ei chadw'n fel ag yr oedd, gan ddileu'r llefydd parcio. Cytunwyd fod y ffordd yn beryglus fel y mae, ac fod llefydd

eraill peryglus gan fod modurwyr yn parcio mewn mannau anghyfreithlon.

Cytunodd y cadeirydd i anfon llythyr at CG i bwysleisio'r pryder a'r anfodlonrwydd.

Adroddwyd fod cais wedi ei dderbyn am gymorth i oleuo'r pentref y Nadolig nesaf. Roedd cytundeb i gefnogi mewn egwyddor, ond roedd angen eglurhad o'r costau uchel.

Roedd ceisiadau am grantiau hefyd wedi dod oddi wrth, Ffair Nant, Theatr Bara Caws, Radio Ysbyty Gwynedd a Cymorth ar Bopeth (CAB). Cytunwyd i roi £100 yr un i'r mudiadau ac i glustnodi £1000 ar gyfer goleuo. Cynnig: KJ, Eilio: DJ.

Priseb 2004-5

Ar sail hyn ac amgyfrif gwariant y flwyddyn bresennol penderfynwyd ar bresebiad o £11,500 ar gyfer y flwyddyn 2004-5. Cafwyd pleidlais unfrydol.

Ceisiadau Cynllunio

- 1) CO3A/0803/15/LL a CO3A/0804/15/LL.

Dymchwel rhan o adeilad presennol ynghyd â newidiadau ac estyniadau i greu 5 Uned preswyl a Bwyty, 59 Stryd Fawr, Llanberis. - dim gwrthwynebiad mewn egwyddor, ond holwyd lle y byddai preswylwyr y fflatiau'n parcio. Doedd dim llefydd parcio wedi eu dangos ar

(Parhad ar dudalen 12)

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS Cyfarfod Cyhoeddus

I ystyried sefydlu
Grŵp Gweithgarwch Ieuenctid
yn y pentref er mwyn cael rhywbeth
gwerth chweil iddynt ei wneud.

Siaradwr: **Heddwas Peter Willdigg**
(Rheolwr Parth Cymunedol Llanberis)

yng Ngwesty'r Fictoria (Quality Hotel)
am 7.30
nos Lun, 15 Mawrth 2004

Blodau
Racca

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silo
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHOEDD O'R GALON YW BLODAU

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

websites: www.a-v-w.co.uk



Car now for
Petrol new fleet
Garb. new Chrysler/Reliant

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed i'ch
ac yn ymestyn oes eich car

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

(Parhad o dudalen 11)

y cynlluniau ac onid oedd lle ar gael roedd amheuaeth a briodoldeb y datblygiad.

2) CO4A/0057/15/CR Estyniad a newidiadau bach mewnol, Kent Mountain Centre, Glyn Padarn, Llanberis - dim gwrthwynebiad.

3) NP3/15/170 Codi dau bolyn pren gyda antena a gosod caban mesur ar lefel y tir ar ran Airwave mm02 Ltd., yn Tŷ Isaf, Nantperis - dim gwrthwynebiad mewn egwyddor er fod cwestiwn wedi ei holi am ddiogelwch mastiau o'r fath, ac roedd na bryder am godi polion ychwanegol. Mae'r Nant yn frith o bolion yn barod. Gofynnwyd i'r cadeirydd holi am ddiogelwch y mast.

Ceisiadau Cynllunio a Ganiatawyd

1) CO3A/0757/15/A Adeiladu Tŷ

ar lain o dir cyfagos i 9 Rallt Goch, Llanberis

2) CO3A/0787/15/L Estyniad 16 Ffordd Tŷ Du, Llanberis.

3) CO3A/0032/15/LL Estyniad i Llwyn Celyn Bach, Llanberis Ystafell wely ar y llawr cynta a storfa a thoiledau ar y llawr isaf

Gohebiaeth

1) Llythyr oddi wrth Alun Ffred Jones AC yn mynegi pryder am newid ffiniau etholiadol. Penderfynwyd anfon at y Comisiwn Ffiniau yn argymhell dim newid. Cynnig: CM, Eilio: DP

2) Llythyr arall gan A Ff Jones AC yn cyfeirio at fwriad Heddlu'r Gogledd i gau Canolfan Alwadau yng Nghaernarfon. Penderfynwyd gwrthwynebu'r bwriad. Cynnig: CM, Eilio: DP

3) Llythyr oddi wrth Mark Isherwood AC yn mynegu

pryder ynglŷn â'r bwriad i sefydlu mudiad 'Un Llais i Gymru'.

4) Cais am dâl aelodaeth 'Un Llais i Gymru'. Penderfynwyd holi mwy am y mudiad yma, a gofyn barn 'Cymdeithas Bro a Thref Cymru'.

5) Cais am dâl aelodaeth yr RA (Ramblers). Onid ydym wedi talu eisioes?

6) Llythyr oddi wrth Dafydd Roberts, Curadur Amgueddfa'r Chwarel yn holi barn ynglŷn â'r bwriad i greu llwybrau treftadaeth, ac yn gofyn am gael dod i gyfarfod y CC. Cytunwyd i hynny.

7) Llythyr Ymchwil - cywirdeb manylion am y Cyngor gan CG

8) Cist Gwynedd - manylion grantiau

9) Mantell Gwynedd - manylion cymorthdaliadau

10) Holiadur am y Cae Chwarae dan ofal y CC oddi wrth CG.

Unrhyw Fater Arall

1) Costau Claddu - gofynnwyd pa bryd y cafodd y costau eu hadolygu. Penderfynwyd trafod y prisiau y mis nesaf.

2) Adroddwyd fod tyrchod yn ôl yn cloddio yn y fynwent. DT i drefnu i'w difa.

3) Adroddwyd fod yr arwydd sy'n cyfeirio at Raeadr Llanberis wedi dislannu, ysgrifennu at CG.

4) Ers rhai wythnosau mae'r Lori Ludw wedi bod yn troi

ar dir glas yn ymyl Maes Padarn - ysgrifennu at CG.

5) Pryder fod carafanau ar draws llwybr yng Nghoed Fictoria. Holwyd hefyd lle'r oedd y preswylwyr a fu yno ers diwedd yr haf yn mynd â'u gwastraff a'u carthion. DT i holi CG.

6) Adroddwyd fod sbwriel a llygod mawr ar y llain tir rhwng yr afon a cheg y ffordd tuag at Bont y Bala. Nodyn i ofyn a ydi'r tir yma ym meddaint CG. Os ydyw, a oes modd ei glirio?

7) Gofynnodd Carys Morris a fyddai modd i'r Cyngor drefnu Cyfarfod Cyhoeddus i weld a ellid sefydlu Grŵp i greu gweithgarwch ar gyfer llanciau a merched ifanc y pentre, mewn partneriaeth â'r Heddwes newydd. CM a DT i drefnu.

8) Mae busnesau yn Llanberis wedi ail ddechrau gosod arwyddion ar balmentydd o flaen siopau, mae'n arferiad peryglus. Oni all CG eu gwahardd?

9) Gan mai yn y prynhawn y mae Partneriaeth Llanberis yn cyfarfod penodwyd CM i fynychu'r cyfarfodydd nesa yn lle EB, sy'n methu mynd oherwydd galwadau gwaith.

CYNHELIR Y CYFARFOD NESAF NOS IAU Y 18fed o FAWRTH, 2004.



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu
ysgrifennwch atynt:
Swyddfa Etholaeth
8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu
e-bost: williamsgw@parliament.uk

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Silver STAR GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU VM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I CYNHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI VN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein telthiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333



Quality Hotel Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)
- rhan o CHOICE HOTELS

wrth droed yr Wyddfa
Ffôn: Llanberis (01286) 870253

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

MARWOLAETH. Ar 11 Rhagfyr 2003 bu farw Lottie Jones, Stryd y Dŵr gynt, yn Corby.

Bu Lottie Jones yn organyddes yng Nghapel Seion am ddeuddeg mlynedd, cyn iddi hi a'i theulu symud i Groesor yn 1950.

Symudodd y teulu o Groesor yn y pumdegau, gan ailsefydlu, fel nifer o deuluoedd o Lanberis, yn Corby. Roedd ei diweddar wr, John Owen Jones, yn un o blant East Lynne. Ef yw cyfansoddwr y dôn 'Meinir', sydd yn y llyfr emynau *Caneuon Fydd*.

Estynnwn bob cydymdeimlad tuag at ei phlant, Elli Whitehouse ac Irfon Wyn Jones.

DYMUNA Gordon, Gill a Mark ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli David, mab a brawd annwyl iawn, ac am bob rhodd a dderbyniwyd tuag ar ymchwil Neuroacanthosytosis.

DYMUNA Oliver a Gwen Edwards ddiolch i'w teulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Arian.

Hefyd dymuna Gwen ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd yn dilyn ei damwain yn ddiweddar.

DYMUNA Enid, Carys, Bethan a theulu y diweddar Eurwyn Jones, Delfryn, ddiolch o galon am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd tuag arynt yn eu profedigaeth drist, ac am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd. Diolch i'r Parch D. John Pritchard a Gwynfor Jones am wasanaeth a threfniadau urddasol.

DYMUNA Mrs Myfanwy Jones, Snowdon Street, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl roddion hael, blodau, cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau a gafodd tra yn Ysbyty Gobaith ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i staff y Feddygfa i gyd a staff y Fferyllfa am eu caredigrwydd bob amser.

DYMUNA Mrs Nellie Owen a theulu'r diweddar Tom Lewis Owen, Corby, ddiolch o galon i'r teulu a chymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

Diolch hefyd am y cardiau a'r rhoddion tuag at Eglwys St Padarn, i'r Canon Idris Thomas, Mr Derek Jones, Dr W Munro, Mr Myrddin Pritchard a Mr Gwynfor Jones. DYMUNA Lillian, Enid ac Emlyn ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau a geiriau o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar ôl colli mam annwyl iawn, Beryl Jones, Garndolbenmaen, yn wreiddiol o Lanberis. Diolch hefyd am y rhoddion ariannol a dderbyniwyd tuag at Dy Gobaith a Diabetes UK. Diolch hefyd i'r teulu i gyd am eu cefnogaeth dros y misoedd dwythfa.

DYMUNA Yvonne H. Loyall ddatgan ei diolchgarwch i berthnasau a chyfeillion am y caredigrwydd a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd. Diolch yn fawr i bawb. DYMUNA Mrs Avril Pritchard, 4

Stryd Fawr, Llanberis, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd, galwadau ffôn, blodau a'r cardiau a dderbyniodd ar ôl ei damwain yn ddiweddar.

Diolch o galon i staff Wardiau Beuno a Glaslyn, Ysbyty Gwynedd am eu gofal ac i aelodau'r Tîm Galwadau Brys am eu caredigrwydd ar ôl iddi ddod adref. CONSORTIWM BUSNES

Rafli Nadolig 2003

Cyfrifodd: Jan Cambridge; Tocyn £100 i siop Mynydd Gwefru: Bryn Bras; Tocyn £25, Y Bistro: Val Brown; B & B, Quality Hotel, Snowdonia: Derek Ryden; Tocyn Teulu Rheilffordd yr Wyddfa: Denis Jones; Tocyn Teulu Rheilffordd y Llyn: Erw Fair; Tocyn Teulu Green Wood Forest Park: Eiddwen Thomas; Cinio dydd Sul, Quality Hotel Snowdonia: T. Edwards; Tocyn £20, Joe Brown: Mrs H. Jones; Tocyn £20, Fframia: Gillian Asodia; Tocyn pizza, Tŷ Gloc: Meleri, d/o Marteş; Tocyn cinio, Seafresh: N. Humphreys; Tocyn £10, Energy Cycles: Darren, d/o Marteg; Addurniad Bwrdd, Glan y Bala: Lyndsay, Caxton House; Potel o Baileys, Idan House: Russell Roberts; Potel o Baileys, Idan House: Selwyn, Morris Bros Bakery

Busnes wedi ei addurno orau: 1. R.J. Roberts; 2. Y Bistro; Diolch yn fawr i bawb sy wedi helpu hefo Gŵyl Nadolig Llanberis 2003.

DRAENOG

STORI DRYDANOL

Digwydd clywed am aelod o Gôr Dyffryn Peris wedi bagio'i gar i ben polyn letric! Nid yn llythrennol, brysiaf i ychwanegu. Ni wyddai'r canwr fod yna bolyn wedi'i adael yn llorweddol yn y tywyllwch, a bagiodd drosto. Er ymdrech'u'n galed ar ôl y practis ni lwyddodd i gael y car yn rydd. Blinodd ar ddisgwyl ac aeth am beint! Eironi'r stori ydi fod hwn yn adnabyddus drwy Ddyffryn Peris fel gyrrwr - gyrrwr bwa hynod ofalus a 'STEDI'. Bydd yn canu ei unawd 'Ise Weary of Waitin' gyda llawer mwy o arddeliad y tro nesaf, a bydd y gynullidfa yn gweiddi am fwy - MOR, MOR, MOR!!!

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01246) 714043
neu Caernarfon
Ffôn: (01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr Clwb 300 mis Ionawr:

£40: Mr Emrys Owen, Bryn Môr; £25: Mrs H.I Williams, 8 Croes y Waun; £10: Mr Haydn Jones, Rhandir Mwyn.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yn y cyfarfod ar 5 Chwefror croesawodd Mrs Catherine A. Jones, y Llywydd, Mrs Helen Bradley. Eglurodd Mrs Bradley, yn ddiddorol iawn, hanes sefydlu y busnes 'Body Shop' ac roedd wedi dod ac amryw o samplau o'r math o golur sy'n cael ei gynhyrchu ganddynt. Er mwyn dangos ansawdd y colur, bu Pat Parry yn fodel i Helen - gyda chanlyniad dymunol iawn! Diolchodd Anne V. Williams i'r wraig wâdd. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei roi gan 'Body Shop' gan Wenna Edwards, ac enillydd y raffl, a oedd wedi ei roi gan Menna McDaid, oedd Anne.

Dalier sylw: Ni fydd y cyfarfod nesaf ar 4 Mawrth fel arfer ond ar 11 Mawrth gan nad oedd y gŵr gwâdd, sef y Parch Gwynfor Williams, yn gallu dod. Croeso cynnes i aelodau newydd.

DIOLCH i swyddogion Capel Croesywaun am inni gael defnyddio'r Festri ar gyfer plygu'r rhifyn diwethaf o'r Eco. Diolch hefyd i'r criw ddaeth i blygu. Roedd yn braf gweld wynebau newydd ym mysg yr hen griw rheolaidd.

CYMORTH. Bu llawer o drigolion y pentref a thu hwnt yn hynod o barod i estyn llaw i helpu teulu Angorfa wedi iddynt ddiodeff tân yn eu cartref.

Hefyd bu tân yn gyfrifol am beth difrod yng nghartref Mrs Enid Williams yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Rosalind Owen, Bryn Môr, wedi iddi golli ei brawd yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Ieuan Hughes, Wernos, Stad Croesywaun, yn ei brofedigaeth o golli ei fam.

Yn dawl yn Ysbyty Eryri, bu farw Mr Eric Wyn Jones, Stâd Bro Waun. Cydymdeimlwn ag Annettoine, Anna Marie, Janette, Dafydd Emrys, Eilian, Gwyneth, Eric a Geraint yn eu profedigaeth o golli eu tad.

ADREF O'R YSBYTY. Groesawn Mr Robin Roberts, Bryn Golau; Mr Trefor Beech, Bronallt a Miss Katie Roberts, Tref Eilian adref o'r ysbyty. Gobeithio y byddwch yn teimlo'n well wedi cael dod adref.

Anfonwn ein cofion at Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau, sydd wedi gorfod dychwelyd i'r ysbyty oherwydd anhwylder lechyd.

Anfonwn ein cofion hefyd at Mrs Mary Davies, Bryn Eithin, sydd wedi mynd i aros i gartref Y Feelas, Llanrug dros dro, ac at Mrs Catherine Williams, sydd yng nghartref Plas Pen Gwaith, Llanberis, ac nid yng Ngherrig yr Afon, fel y dywedais yn y rhifyn diwethaf.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Steve ac Avril, Stâd Tref Eilian, ar enedigaeth mab bychan, Jonathan, brawd bach i Stephen a Beth.

YMDDEOL. Dymunwn yn dda i Mrs Meira Turner, Collfryn, ar ei hymddeoliad o'i gwaith yn swyddfa garej Pant Waun.

CÔR Y WAUN. Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn prynu'r CDs - mae ychydig yn dal ar ôl, felly cofiwch gysylltu â ni os ydych eisiau ychwanegu.

Bu'r Côr yn canu i ferched y W.I. yn Ysgol Brynrefail ar bnawn Sadwrn, 7 Chwefror. Byddwn ym Mlaenau Ffestiniog ar 24 o'r mis hwn; Capel Ebeneser, Caernarfon ar 4 Mawrth ac yna yng Nghlwb Hwyllo Caernarfon ar 19 Mawrth. Os ydych eisiau trefnu noson gyda'r Côr, gallwch gysylltu gyda'r ysgrifennydd, Emyr Roberts ar (01286) 650128. Genedigaeth. Llongyfarchion i Garry a Christine Davies, Hafan, ar ddod yn daid a nain i'w wyres fach, Efa Medi, merch fach i Emma a Chris.

Llongyfarchiadau i Haydn a Glenys Jones, Rhandir Mwyn ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bychan, Cai, i Eilir a Barbara.

DYWEDDIAD. Dymunwn yn dda i Gwyn Morris, 3 Ael y Bryn, ar ei ddyweddïad â Charlotte o Pontllyfni.

TALWRN Y BEIRDD. Bydd Tîm Waunfawr yn herio Tîm y Monwyr mewn gornest o Dalwrn y Beirdd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth, 2 Mawrth yng Nghanolfan y Capel, Caeathro. Hefyd ar y noson bydd enillwyr y llynedd, Caernarfon, yn wynebu Tîm y Moelwyn.

MARWOLAETH. Ddeuddydd wedi iddi gyrraedd ei chant a phedwar mlwydd oed, bu farw Mrs Southworth, a drigai yn Gwynant cyn iddi symud oddi yma ychydig o flynyddoedd yn ôl. Cydymdeimlwn â'i theulu a'i ffrindiau yn eu colled.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Yng nghyfarfod mis Chwefror o'r Gymdeithas cafwyd sgwrs tra derbyniol ar fywyd yr actores Ellen Roger Jones gan y Parchedig Harri Parri. Llywydd y noson oedd Catherine Jones, a hi a Gwilym O. Williams roddodd y diolchiadau. Hyfrydwch i'r Pwyllgor oedd cynifer o'r aelodau oedd yn bresennol. Bydd cyfarfod olaf y tymor, nos Lun, 8 Mawrth, pan y ceir darlith gan yr Athro Hywel Wyn Owen ar y testun, 'Llên cynefin - agwedd ar enwau lleoedd', gyda Pat Parry yn llywyddu. Darperir lluniaeth ysgafn ar derfyn y ddarlith i gloir'r tymor.

EISTEDDFOD ARDAL WAUNFAWR. Cynhelir cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Eisteddfod Ardal Waunfawr yn y Ganolfan Fach nos Lun, 15 Mawrth am 8 o'r gloch. Rydym yn mawr obeithio y daw nifer dda ynghyd i'r cyfarfod pwysig hwn.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115



TÎM PÊL-DROED DAN 7 OED. Mae tîm pêl-droed dan 7 Bethel wedi cael cit newydd. Noddwyd y tîm gan Siop Treflyn. Dymuna'r hyfforddwyr, Maldwyn John a Hywel Jones ddiolch i Billy ac Ann am eu haelioni.

DIOLCH. Dymuna Brian ac Eirlys Sharpe, Ael y Bryn, ddiolch i'w teulu a ffrindiau am y cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Ruddem ar 8 Chwefror.

CLWB BRO BETHEL. Cynhaliwyd cyfarfod Chwefror y Clwb yn festri Bethel yng nghwmni Mr Emyr Price. Croesawyd Emyr i'r Clwb gan y Llywydd, y Parch Gwynfor Williams. Cafwyd sgwrs hynod o ddifyr ar hanes Lloyd George a'r Parch RJ Hughes, fu'n weinidog ym Methel flynyddoedd yn ôl. Cyfeiriodd Emyr at Eisteddfod y Plant a gychwynnwyd gan y Parch RJ Hughes, a hefyd at yr amser pan oedd cerddorfa yn y Capel.

Bu Emyr a Mair a'r teulu yn byw ym Methel am 25 mlynedd gyda Mair yn weithgar yn yr Ysgol Sul am flynyddoedd. Daeth Angharad a braint iddi ei hun, ei theulu a'i phentref pan enillodd Fedal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhyddewi yn 2002.

Diolchodd Elizabeth Evans a Goronwy Jones i Emyr ar ran y Clwb.

Dydd Llun, 1 Mawrth bydd y Clwb yn cyfarfod yn yr ysgol drwy wahoddiad arferol y pennaeth, yr athrawon a'r plant. Pawb i gofio dod a chwpan a soser a phlât hefo nhw.

YR YSGOL

Bu'r hanner tymor ers dechrau lonawr yn un prysur eto eleni i'r plant a'r athrawon. Bu Blwyddyn 5 a 6 yn Neuadd JP, Coleg y Brifysgol, Bangor yn gwrandao ar berfformiad gan Gerddorfa Ensemble Gymru o 'Pedr a'r Blaidd' gyda Llion Williams yn adrodd y stori yn Gymraeg. Wedyn clywsom un o'r perfformiadau cyntaf o'r 'Archwadan' gan Gareth Glyn.

Bu Gwenda Williams o'r Archifdy yn ymweld â'r Adran y Dabanod i son am, a dangos celfi diwrnod golchi ers talwm. Bydd yn dychwelyd i siarad am yr ysgol ers talwm hefo Blwyddyn 5 a 6 ac am

gartrefi hefo Blwyddyn 3 a 4.

Llongyfarchiadau cynnes iawn i dîm pêl-rwyd yr ysgol a ddaeth yn fuddugol yn Nhwrnament yr Urdd yn ddiweddar. Bydd y tîm yn cynrychioli Eryri yn Aberystwyth yn y dyfodol. Diolch yn fawr i ymroddiad Miss Nia Gwawr Jones yn hyfforddi'r tîm.

Mae'r ysgol yn edrych ymlaen eto i groesawu Clwb Bro Bethel i'w te a chyngherdd Gŵyl Dewi ar ddydd Llun, 1 Mawrth.

Rydym yn falch o glywed fod Mr Dylan Parry yn gwella wedi iddo dorri asgwrn yn ei droed. Gobeithiwn ei weld yn ôl yn fuan. Buom yn lwcus iawn o gael Mr Cemlyn Jones i ddysgu Blwyddyn 6. Dymunwn daith ddiogel i Mr Jones pan fydd yn ymweld â Nepal yn fuan iawn.

ADRAN YR URDD. Mae prysurdeb mawr wedi bod yn yr Adran y tymor hwn. Mae llawer o'r aelodau wedi bod yn ymarfer ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, a gynhelir dydd Sadwrn, 28 Chwefror a'r 'steddfod symudol nos lau, 4 Mawrth. Bydd nifer o unigolion yn ogystal â phartïon a chôr yn cynrychioli'r Adran eto eleni. Rydym yn ffodus bod rhieni a ffrindiau wedi cytuno i'w hyfforddi. Diolch yn fawr iddynt am roi eu hamser i hyfforddi'r plant. Mae'r plant yn sicr yn mwynhau'r profiad yn fawr.

Mae'r Adran yn cyfarfod bob yn ail wythnos ar nos Ffrêch a chafwyd nifer o weithgareddau yn ystod yr hanner tymor. Ar 7 Ionawr cafwyd cwis. Yna ar 21 Ionawr cafwyd y plant gyfle i wrando ar stori Santes Dwynwen ac yna gwneud cardiau. Bu nifer o'r aelodau mewn disgio yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon ar 14 Ionawr. Cafwyd noson o chwaraeon o dan ofal Ieuan Jones ar 4 Chwefror. Roedd pawb yn amlwg wedi mwynhau yn arw.

Ar ddydd Sadwrn, 10 Ionawr bu tîm pêl-droed y genethod yn cystadlu yn Nhwrnament yr Urdd ym Mangor. Diolch i Iorwerth Williams am eu hyfforddi. Er na ddaeth llwyddiant y tro hwn roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod.

Ar ddydd Sadwrn, 7 Chwefror bu'r tîm pêl-rwyd yn llwyddiannus yn Nhwrnament yr Urdd. Llongyfarchiadau iddynt. Byddant

yn mynd ymlaen rwan i gystadlu yn Chwaraeon Cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth. Pob lwc iddynt. Diolch i Miss Nia Gwawr Jones am eu hyfforddi.

Bydd plant yr Adran yn cynnal cyngerdd nos lau, 26 Chwefror yn Ysgol Bethel am 6.30. Mae hwn yn gyfle da i'r plant gael perfformio eu eitemau cyn yr Eisteddfod. Mae hefyd yn gyfle i rieni a ffrindiau gael clywed y plant.

Bydd cyfarfod nesaf yr Adran ar 10 Mawrth.

Y NEUADD GOFFA. Cynhelir Pwyllgor y Neuadd yn y Neuadd am 7 o'r gloch nos Fawrth, 2

Mawrth.

Gobeithio y bydd holl aelodau'r pwyllgor yn gallu bod yn bresennol gan fod materion pwysig ynglŷn â dyfodol y neuadd i'r trafod.

TARO NODYN.

Gwerthfawrogwyd cyfraniad Siôn Huws, Bryn Ogwen yn ddiweddar am ei gyfeiliant medrus yn oedfaon y Cysegr. Edrychwn ymlaen at elwa o'i dalent yn y dyfodol:

Dy hyder wrth oferyn - roddodd liw

Roddodd lais i'r emyn;

A nwydus lif pob nodyn

Yn adfer haul, oedfa'r hŷn.

"BWGI BETHEL"

NOSON FAWR CLWB PELDROED BETHEL

DYLAN WYN (RADIO CYMRU)

YN CYFLWYNO

"JONATHAN DAVIES

a'i FAND"

"DYLAN a NEIL"

"Y CYFFRO"

"YNYR ROBERTS (EPITAFF)"

YN Y BEDOL, BETHEL - NOS WENER 5ed.

MAWRTH am 8.00 o'r gloch.

TOCYN - £ 5.00 AR GAEL YN:

- Y BEDOL
 - SIOP ANN a BILLY
 - GAREJ BERAN
- Neu ffonio:

TREFOR FOULKES ar 07771 593144

TECWYN HUGHES ar 01248 671469

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?

Angen rhai Newydd? os felly

FFONIWCH

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Cystadleuaeth i bob oedran

Un wobwr yn unig, sef tocyn llyfr Cymraeg gwerth £10. Os bydd mwy nag un ateb cywir, yna tynnir enw'r enillydd o'r grochan-dewis-enw-ffodus.

Cwblhewch (B) a chofiwch ddanfon eich enw a'ch cyfeiriad yn llawn, ynghyd â'r ateb cywir, at Dafydd Guto, Neuadd Glasgoed, Llanrug LL55 3BB. Y dyddiad cau yw 7 Mawrth 2004

Mae ch, ff, ll, rh, th, yn un llythyren. Dyma enghraifft o'r hyn y disgwylir i chwi ei gwblhau, sef (A).

A

Mewn gardd, planhigyn llwyd ei enw, chwerw ei flas. (*Wermud*) Arogl y planhigyn blodyn piws hwn sy'n cich cynorthwyo tra'n ceisio cysgu. (*Lafant*)

Yr hyn nad ydyw'r garddwr cydwybodol yn ei groesawu ran tyfiant yn ei ardd. (*CHwyn*)

Oes un eto ar yr hen fynyddoedd, yn crwydro, heb ei godro? (*Gafur*)

Rhan coch corff ymwelydd pluog sydd hefo ni yn ystod tymor y Gaeaf. (*Aden Goch*)

Mae'r llythrennau canlynol ar gael, sef W, L, CH, G ac A, ond maent wedi eu cymysgu, a'r cyfan sy'n rhaid i chwi ei gyflawni yw Adrefnu Llythyren Gyntaf pob gair a ffurfio enw ym myd natur: Yr ateb yw **Gwaleh**

(B)

---E---A--- V MAES HEFYD (Cyfrol gyntaf ar y cyd Ted Breeze Jones a Gwyn Thomas.)

-L- (Ail gyfrol ar y cyd Ted Breeze Jones a Gwyn Thomas.)

Bwyd i'r gwynnau mewn blodau: -E---D---

Enw arall ar Siani flewog --N--- Er mwyn epilio cynhyrchir y rhain gan adar a phryfed:

-Y--
-N---ADAR (gan) Dewi E. Lewis, Porthmadog.

Pysgodyn sy'n ariannog a chyffredin. 'Bream' yn yr iaith fain --R---

Ymwelydd y Gaeaf, un o deulu'r hwyaid, pine ran lliw ei brest -W-W--.

Yn awr ewch ati i adrefnu'r llythrennau, a ffurfio UN GAIR ym myd natur. Chwiliwn am enw aderyn. Bob hwyl

Coel ar Goel?

Cwhwian. Trydar. Hwtian. Ebe'r Parchedig Elias Owen (1833-99) yn ei lyfr *Welsh Folklore* (1896): 'cân yr adar cyn Chwefror, hwy griant cyn Mai.' h.y. os yw'r tywydd garw yn dilyn. D'wedir hefyd yn nechra' tymor yr hydref fod gweld adar yn heidio ynghyd yn arwydd sicr bod gaeaf cynnar ar fin digwydd ac y byddai'n un calad sobor. Os yw'r adar a heidiodd yn ymwahanu yn y gwanwyn ac yn ail-ddychwelyd yn un haid, yna bydd tymor y gaeaf yn dal ati hyd fis Mai fan bella! Sobrwydd bach.

Yr Alarch - D'wedir bod wyau'r aderyn yn ca'l eu deor bob amsar yng nghanol 'storm o fellt a th'rana'!

Aethnen - Mae sŵn rhuglo ymhlith dail y goedan yn arwyddo bod glaw a thywydd stormus ar gyrradd. (Trevelyan, Marie, *Folk-lore & Folk - stories of Wales*).

Brân - Dynoda griw o frain swnllyd, a'r cyfan ohonynt yn crawcian yn uchaf, fod gwyntocdd cryfion ar ddyfod.

Ci - Os yw Pero'r Ail Rwdins yn ubain, yna daw corwynt o'r de-orllewin.

Cnocall y coed/Caseg Wanwyn - Mae'i hysgrechian yn dynodi fod glaw ar fin cyrra'dd.

Hwyaden - Os ydyw'r hwyaid yn ymlid ei gilydd ac yn plymio'n wyllt yn y dyfroedd, gan glecian eu hadenydd ynghyd mewn modd ffyrnig, yna tywydd gwlyb sy'n dilyn perfformiada' o'r fath. Paun - D'wedir fod cri aflafar yr aderyn yn darogan gwyntocdd cryfion a glaw. Credir bod galwad y paun yn ymdebygu i'r gair Cymraeg g'law!

Tylluan - Mae'i chlywad yn hwtian ar gwr pentra' neu dre yn ragfynegiant clir bod eira rywla'n y ncn!

Mi wnawn ei gada'l hi fan 'na am y mis hwn. Os oes gennydd dd'wediada' neu goelion ynghlych synau anifeiliaid, neu adar, sy'n ymwneud â'r tywydd sgwennwch atom. Coelion?

Dichon fod rhai ohonynt yn wir bob tama'd! Ac os nad ydynt yn wir ran o broffwydoloia'th a broffesir ynddynt, yna tloded ein bro a'n cenedl hebddynt. Maent yn ddifyr tu hwnt, a marw bob iaith heb ei difyrrwch! Llecha fywyd mewn ail-adarodd ar dafod leferydd. Mae grym cof yn parhau ac iaith yn gyfrwng byw.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

DIOLCH Dymuna Mrs Phyllis Jones, 2 Hafod Lon, Rhiwlas fynegi diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd at y teulu yn eu profedigaeth o golli y ddiweddar Mrs Maggie Lizzie Ellis, gynt o'r Gors.

CYDYMDEIMLAD Estynnwn gydymdeimlad dwys â Mrs Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw Mr William Jones ei brawd yng nghyfraith o Fryngwrn, ar Ionawr 25ain. Mae llawer ohonom yn ei gofio flynyddoedd yn ôl yn byw yn ein plith yn 1 Tai Orwig gyda Eileen ei briod a'r plant, cyn symud ohonynt i Ynys Môn.

LLONGYFARCHIADAU Mae Rhian a Mared Morris, 5 Minffordd wedi bod yn llwyddiannus unwaith eto ym maes Gymnasteg. Daeth Rhian yn gyntaf allan o ddeunaw mewn cystadleuaeth y mgeiswyr o Ysgolion Uwchradd Eryri. Yn adran yr Ysgolion Cynradd daeth Mared yn ddegfed allan o naw ar hugain.

SEFYDLIAD Y MERCHED Cyfarfu'r gangen yn Ysgol Gymuned Cwmyglo nos Lun, Chwefror 16eg dan lywyddiaeth Pat Jones. Gwr gwadd y noson oedd Mr Robin Jones o Fethel. Cafwyd sgwrs ganddo am y gwaith a wneir i wella safonau byw yr henoed gyda chymdeithas 'Age Concern'. Yna cafwyd adroddiad o Gyngor y Gwanwyn gan Verna Jones. Paratowyd y lluniaeth gan Falmi Owen a Gwenda Roberts, a'r olaf yn cyflwyno gwobr y mis a enillwyd gan Carol Houston. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mawrth

15fed sef dathliad Gŵyl Ddewi ym Mhlas Tirion, Llanrug.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD OEDFA 'R CYMUN

Yn ystod yr oedfa Nos Sul, Chwefror 8fed, gyda'r Parch H.Gwynfa Roberts, Llanwnda yn gwasanaethu, gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd. Anfonwyd cofion at Miss Blodwen Owen 2 Tai Orwig a gymerwyd yn wael i Ysbyty Gwynedd yn ystod yr wythnos.

Yn dilyn dosbarthu Adroddiad yr Eglwys am 2003, diolchwyd i bawb am eu gweithgarwch a'u hymroddiad ynglŷn â'r Achos dros flwyddyn arall.

DYDD GWEDDI CHWIORYDD Y BYD MAWRTH 5ed 2004

Ers nifer o flynyddoedd bellach ni fu i ni gynnal y gwasanaeth hwn fel eglwys. Eleni yn dilyn cyfarfod ym mis Tachwedd 2003, a gynhaliwyd yn Seilo Caernarfon ar ran Eglwysy'r Gogledd i godi ymwybyddiaeth o'r dydd arbennig hwn, bwriadwn ymuno yn y gwasanaeth byd-eang a baratowyd y flwyddyn hon gan ferched Panama.

Trefnwyd i gynnal yr oedfa bnawn Gwener, Mawrth 5ed am 2 o'r gloch. Groesawn yn gynnes unrhyw un garai ymuno â ni yn yr oedfa arbennig hon.

OEDFAON MAWRTH

7: Parch Emrys Thomas, Caernarfon am 10

14: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel am 5.30

21: Mr Evan Jones, Bontnewydd am 10

28: Mr W.Arfon Roberts, Pwllheli am 5.30

PLAID CYMRU

Cafodd Cangen Llanrug o Blaid Cymru noson ddiddorol nos Fercher, Ionawr 21, yn clywed Dafydd Wigley'n rhoi ei argraffiadau personol o Gynulliad Cymru yng Nghaerdydd. Chwaraeodd Dafydd ran allweddol yn y frwydr i'w gael yn y lle cyntaf, a bu'n aelod dros Etholaeth Arfon am y pedair blynedd cyntaf o'i hanes. Bellach mae'n gweld y Cynulliad o'r tu allan, ac yn gweld cryfderau a gwendidau'r sefydliad; mae'n amlwg, meddai, mai'r ffordd ymlaen i'r dyfodol fydd cael rhagor o bwerau a chreu Senedd go iawn i Gymru.

Bydd Cinio Gŵyl Ddewi nos Wener, Chwefror 27, a bydd Alun Ffred, ein haelod yn y

Cynulliad, ac Alwen ei wraig, yn dod i fwynhau cinio gyda'r gangen yn y Bistro, Llanberis. Fore Sadwrn, Chwefror 28, bydd bws yn gadael sgwâr Llaurug am chwarter i ddeg i fynd i Rali Senedd ym Machynlleth Mae braidd yn hwyr erbyn hyn, ond ffoniwch Llinos (674478) rhag ofn bod lle ar ol i'r cinio neu i'r Rali

Mae gan Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa) sgwrs newydd sbon, a dyna gawn ganddo ar Wyl San Padrig, Mawrth 17. Mae pawb eisoes wedi clywed a mwynhau 'Y Stori tu ôl i'r gân'; y tro yma 'Teithio tu ôl i'r gân' fydd y testun, ac y mac croeso cynnes iawn i bawb i'r cyfarfod am 7.30 o'r gloch yn y Sefydliad Coffa.

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDVDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870840**

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

ATGOFION AM GLWT-Y-BONT

Pan fo rhywun wedi cyrraedd ei bedwar ugain oed, pwysig iawn iddo yw cofio ei blentyndod cynnar. Felly dyma ychydig o'm hatgofion o gyfnod y 1920au, pan oedd fy mrawd a minnau yn ymweld â Nain a Thaid Clwt-y-bont.

Wedi i ni adael gorsaf rheilffordd Bangor a chyrraedd Stryd Fawr y ddinas, yna yn sydyn roeddem mewn byd dieithr. Saesneg oedd ein hunig iaith enedigol a theuluol, ond rwan dim ond y Gymraeg a lenwodd ein clustiau. A'n mam ni hefyd yn clebran pymtheg yn y dwsin yn yr un iaith dieithr.

Yr oedd yn rhaid i ni fynd efo Bws 'Johnny Hughes' i Ddeiniolen - nid oedd unrhyw fws yn mynd o Fangor i Glwt-y-bont amser hynny - a thaith gyffrous iawn ydoedd, wrth fynd igamogam trwy goed Nant-y-garth. Ac wedyn, wrth weld Elidir ac agosau at ei chwareli, gwyddem yn sicr ein bod ni mewn byd hollol newydd.

Cawsom bleser mawr yn rhedeg i lawr lonydd gweigion pentref Clwt-y-bont, yn enwedig pan gyrracddasom at afon Calcdffrwd, a chael hwyl fawr wrth daflu cerrig o'r bont fach i'r afon. Rhedeg wcdyn i

fyny Terrace Dinorwig hyd at Bryn Terrace, lle'r oedd Nain a Taid yn byw mewn tŷ taclus iawn a choeden fawr 'monkey puzzle' o'i flaen o.

Ychydig iawn o Saesneg oedd gan Nain, ond yr oedd hi'n gwybod yn iawn bod chwant bwyd arnom ni hogiau, ac heb oedi byddem ni'n bwyta bara ffresh o Becws Rowlands, Deiniol Road a menyn fferm gan Anti Jane Minafon. Yr wyf i'n cofio tŷ Nain a Taid yn dda, yn enwedig y sofffa yr oeddem ni'n eistedd arni, am fod ei rhawn ceffyl yn ein pigo ni yng nghefn ein penliniau. Nid oedd Taid wedi dychwelyd o'i waith hyd yn hyn, ond wedi i ni fwyta yr oedd John a minnau'n awyddus iawn i fynd allan i sgelfrio ar y creigiau a oedd tu ôl i'r tŷ.

Yn ddiweddarach y byddai Taid yn cyrraedd adref ar ôl ei ddiwrnod o waith caled ar lonydd a llwybrau'r llan. Yna yn wir caem ein boddi gan lif mawr o eiriau Cymraeg, a ninnau heb wybod beth oedd yn cael ei ddweud. Yr oedd gennyf ddiddordeb mewn ceisio dysgu rywfaint o iaith fy mam, ond nid oedd hynny'n bosibl yr adeg honno oherwydd byrder ein hymweliad. Os byddem ni yno ar Ddydd Sul,

rhaid oedd mynd i Gapel Disgwylfa a chael awr a hanner o weddi, cân a phregeth, a ninnau heb unrhyw obaith o ddeall dim.

O dro i dro byddem yn mynd i Rhyd-ddu - taith ddiddorol iawn - efo Nain a Mam i weld Anti Meri, chwaer Nain. Yr oedd hi a'i theulu yn byw yn llythyrdy'r pentref bach lle cafodd mam ei geni yn 1894. Amser hynny yr oedd trên bach y 'Welsh Highland Railway' yn dal i redeg rhwng Porthmadog a Chaernarfon, a byddai John a minnau'n rhedeg yn gyflym iawn i weld yr injan bach yn yr orsaf yn ymyl tŷ Anti Meri.

Taith arall oedd mynd ar y bws i weld Mrs Parry, mam modryb Nel, a oedd yn byw yn 'Tan y Bryn' yn Dinorwig, tŷ llaith oedd dan gesail y chwarel fawr, lle'r oedd y mwyafrif o ddynion yr ardal yn gweithio yr amser hynny. Eistedd yn llonydd ac yfed te oedd ein dyletswydd yn y fan honno, ond yr oedd John a minnau yn edrych ymlaen at ddychwelyd i Clwt-y-bont ar bws Crosville. Pan oeddem yn dod i lawr Gallt-y-foel, mi welsom olygfeydd gogoneddus dros y wlad hyd at Ynys Môn.

Wedi dychwelyd i tŷ Nain, ac amser gwely wedi dod, aem ni i ystafell wely ffrynt i drïo cysgu mewn gwely mawr ac uchel iawn i blant bach fel nyni. Ar y muriau yr oedd darluniau crefyddol a thystysgrifau ysgol Sul o'r hen oes. Nid oedd unrhyw olau, wrth gwrs, a rhaid oedd i ni gau'n llygaid yn dynn, rhag of i ni weld bwgan yn dod ar ein hôl ni. Yn gynnar yn y bore deuai sŵn uchel esgidiau hoelion mawr y dynion yn cerdded yn gyflym i fyni'r lôn gul ar y ffordd i'r chwarel.

Yna deuai yn amser i ni fynd adref. Cael cinio reit dda cyn cerdded i Ddeiniolen i fynd ar motor 'Johnny Hughes' yn ôl i Fangor a'r trên mawr LMS i Gaer, Hooton a Willaston.

O dro i dro yr wyf yn dal i fynd yn ôl i Clwt-y-bont, ond nid ydyw pethau fel yr oeddynt. Mae Taid, Nain a'i cymdogion wedi marw ers talwm, ac yn awr nid oes dim ond coffadwriaeth amdanynt yn aros. Os oes unrhyw un sy'n cofio John H Williams ac Elin Ann Williams Bryn Terrace, mi hoffwn i gael gair ganddynt.

WYNN DAVIES
(46 Boughton Hall Drive,
Chester, CD3 5QQ.
(01244 341047)

O.N. Dechreuodd Wynn Davies ddysgu Cymraeg drwy astudio llyfrau yn ei gartref pan oedd yn Gyfarwyddwr Addysg yng Nghaer. Gwesti arbennig iddo oedd cael siarad Cymraeg â'i fam, Mary (Polly), cyn ei marw yn 1971.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

DIOLCH

DYMUNA Tony Ellis, 5 Nant y Ffynnon, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 65 yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Selina Morris a'r teulu ddiolch o galon i'w cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli brawd ac ewythr annwyl iawn, sef Tom Curig Morris.

DYMUNA Gwynedd a'r teulu ddatgan eu diolch cywiraf am bob arwydd o gydymeimlad a charedigrwydd a amlygwyd atynt ar ôl eu profedigaeth o golli Brenda.

Carwn ddiolch o waelod calon i Dr Robin Parry a holl staff y Feddygfa yn Llanberis am y gofal a gafodd Brenda ganddynt yn ystod ei gwaeledd.

Diolchaf hefyd i'r Prof. Nic Stewart a'i holl dim yn Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd am eu gofal hwythau yn y Ward Ddyddiol ac yn y brif Ward.

Diolch hefyd i'r Parch Wynne Roberts, Caplan Ysbyty Gwynedd am ei alwad â Brenda y noson y bu farw ac hefyd am ei wasanaeth gyda'r Parch Eric Roberts a Mr Derek Jones yn yr Eglwys ac ar lan y bedd, a diolch i Dei Tomos am adrodd y pennill hardd a fynegai deimladau'r hen Bren, dwi'n siŵr, a diolch i Gareth, yr organydd. Diolch hefyd i Mr Gwynfor Jones o Gwmni E.W. Pritchard a drefnodd bopeth mor drwyadl.

Trwy garedigrwydd pawb casglwyd £1,020 er cof am Brenda, ac yn y man fe'i rhoir tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646



AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

AMGUEDDFA LECHI CYMRU LLANBERIS GOFALYDD DROS-DRO

5.4.04 - 31.10.04

£5.90 yr awr

Gwahoddir ceisiadau am swydd
Gofalydd yn Amgueddfa Lechi Cymru,
Llanberis

Oriau gwaith: 37 awr yr wythnos.
Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn
angenrheidiol.

Am ffurflen gais cysylltwch â:
Amgueddfa Lechi Cymru, Gilfach Ddu,
Llanberis, Gwynedd. LL55 4TY. (01286)
870630.
(ebost: llechi@aocc.ac.uk)

Dyddiad cau i dderbyn ceisiadau:
12fed Mawrth 2004.

Dyddiad cyfweld: 23.3.04.

Mae AOCŶ yn gyflogwr cyfle cyfartal.
Croesewir ceisiadau o bob rhan o'r
gymuned.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DYMUNA Lilian, Enid ac Emlyn ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau a geiriau o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar ôl colli mam annwyl iawn, Beryl Jones, Garndolbenmaen, yn wreiddiol o Lanberis. Diolch hefyd am y rhoddion ariannol a dderbyniwyd tuag at Dŷ Gobaith a Diabetes UK. Diolch hefyd i'r teulu i gyd am eu cefnogaeth dros y misoedd dwytha.

ESTYNNWN ein cydymdeimlad i deulu'r ddiweddar Mrs Rhiannon Price, gynt o Tai Caradog, a fu farw 21 Ionawr ym Mhlas y Bryn, Bontnewydd. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Cefnywaun ar 28 Ionawr. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, Y Parch John Pritchard, y Parch Euros W. Jones, Llangefni a'r Parch Geraint Hughes, Bethesda.

CYDYMDEIMLWN hefyd â theulu'r ddiweddar Mrs Bessie May Williams, 31 Rhydfadog, a fu farw 23 Ionawr yn Ysbyty Gwynedd: ei gŵr, Mr Eifion Williams, ei meibion Dafydd ac Ian, a'u teuluoedd a'r merched y bu hi fel mam iddynt. Cynhaliwyd angladd preifat yn Amlogfa Bangor.

Hefyd CYDYMDEIMLWN â Mrs Kathleen Davies, 9 Hafod Olau yn ei cholled o golli ei chwaer, Mrs

Beryl Jones, Garndolbenmaen. DYMUNA Kathleen Davies, 9 Hafod Olau, a'r teulu oll ddiolch i ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a gafwyd ar farwolaeth eu chwaer, Beryl o Garndolbenmaen. Bydd yr arian a gafwyd er cof amdani yn mynd i Dŷ Gobaith a Diabetes UK.

MERCHED Y WAWR. Noson o frethyn cartref a gynhaliwyd ar 19 Ionawr, pan fuom yn dysgu crosio yng nghwmni Ann Lloyd, un o'n haelodau. Cafwyd llawer o hwyl wrth geisio ymarfer crefft a oedd yn ddieithr i amryw ohonom.

Diolchwyd i Ann gan y Llywydd, Buddug Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, 16 Chwefror yng nghwmni cynrychiolydd o'r 'Body Shop'.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cawsom ein diddanu nos Lun, 26 Ionawr gan aelodau ieuengaf y Seindorf, gyda Hefin Goronwy Jones yn eu harwain ac yn eu cyflwyno. Cawsom ddehongliad amrywiol iawn ganddynt, a fwynhawyd gan bawb.

Diolchwyd iddynt gan y Llywydd, Y Parch John Pritchard. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, 23 Chwefror yng nghwmni'r cartwnydd, Gareth Roberts, Gallt-y-foel.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â Wendy Thomas, Bryn y Gof, a'r teulu ar farwolaeth ei mam yng Nghaernarfon ddiwedd mis Ionawr.

SWYDD NEWYDD. Llongyfarchiadau i Dafydd Morris, Frondeg ar ei benodiad fel Cyfarwyddwr i gwmni Hogan, Bangor. Colled fawr i Gyngor Gwynedd.

DIOLCHIAU. Dymuna Gwenno Bebb, Bryn Mair, ddiolch i bawb am eu geiriau caredig a'u cymorth iddi hi a'r teulu adeg marwolaeth ei thad, Owain Bebb, yn ddiweddar.

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Chwefror oedd: £40: (57) Richard Roberts, 9 Bryn y Gof; £25: (21) Arwel Evans, 8 Tai Glangwna; £10: (101) Dewi Parry, Cefn Rhos; £5: (110) Anna Williams, Cefn Gof. GWASANAETHAU'R CAPEL. Cynhelir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Mawrth:

7: 10.00 Parch Trefor Jones;
11.00 Ysgol Sul

14: 11.00 Ysgol Sul

21: 10.00 Parch Gwyn Ertly;
11.00 Ysgol Sul

28: 11.00 Ysgol Sul

Groeso i bawb - Ifanc neu hyn. CLWB MERCHED. Ar nos Iau, 29 Ionawr, cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd yng Nghaernarfon y pentref. Dan lywyddiaeth Mrs Marian Huws, cydymdeimlwyd â Mrs Vera Roberts, y trysorydd, wedi iddi golli ei chwaer, a chroesawyd atom aelod newydd, sef Mrs Eirir Wynn Williams. Y Wern. Derbyniwyd y cyfansoddiad a baratowyd gan Rhiannon Roberts

a bydd hwn ar gael ar ofyn.

Cafwyd noson bleserus iawn yng nghwmni Sue o glinig 'Holistic Therapy' ym Mangor. Cafwyd cyngor ar sut i synhwyro arwyddion o straen ar y corff, ar sut i ymlacio, ac ar ddefnyddio olew aromatherapi yn gywir. Gwifoddolodd Olga Evison i gael 'Indian Head Massage' a diolchodd Olga i Sue am noson ddifur iawn. Rhoddwyd y raffl gan Carey a'r enillydd oedd Harriet, gyda Catrin a Gwenno yn gwneud paned.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 26 Chwefror am 8 o'r gloch yn y Ganolfan, pan fydd Mr Rol Williams o'r Waunfawr yn siarad ar 'Gomowta neu Galliantio'. Croeso i bawb.

TALWRN Y BEIRDD.

Ar nos Fawrth, 2 Mawrth, bydd Talwrn y Beirdd yn cael ei recordio yng Nghaernarfon y Capel, Caeathro am 7.00 o'r gloch. Bydd enillwyr llynedd, Caernarfon, yn erbyn y Moelwyn a Thîm Waunfawr yn herio y Monwyr. Croeso i bawb ddod draw.

TALWRN Y BEIRDD

nos Fawrth, 2 Mawrth
am 7 o'r gloch
Canolfan y Capel
Caeathro

Caernarfon v Y Moelwyn
a
Waunfawr v Y Monwyr

Groeso i bawb
Mynediad am ddim!

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn waliau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



Ty'n Llan Nant Peris

Cinio
dydd Sul
a
Byrbrydau



Bwydydd
Cymreig

Jim ac Anne Cumberton **(01286) 870 284**

Croeso cynnes bob amser



CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac
i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Terannedd, Rhos Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL

CEIR CYMRU

Bethel (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Druidion)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y blyneddau diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'



CYFLENWYR DILLAD
AC OFFER ARBENIGOL
AC YSGAFN AR GYFER
RHEDEG, RASIO ANTUR
A MYNYDD

Am ragor o wybodaeth
cysylltwch â
57 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn **01286 879080**

www.surf-lines.co.uk

eich antur chi ydyw...



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

Cysylltwch â Mantell Gwynedd am help:


- i gychwyn prosiect
- i redeg mudiad
- i geisio am grant
- i gael hyfforddiant
- i wirfoddoli

Ffoniwch: 01286 672626
neu 01341 422575

ymholiadau@mantellgwynedd.com

www.mantellgwynedd.com

Rhif Elusen 1068851
Rhif Cwmni 3420271



Y DIDOSTUR LAW

gan Olwen M. Davies

Rhoddodd haen dew o liw Rcoch ar ei gwefusau ac aeth allan drwy'r mwrlwch i lawr y llwybr a droellai drwy'r parc i'r dre. Teimlai'n fler yn ei hesgidiau fflat a'i sanau leil, ond ni allai fforddio dim ond llyfrau. Ni fyddai yn y Coleg o gwbl oni bai am grant hyfforddi athrawon y llywodraeth a'r Ysgoloriaeth Agored a gafodd. Weithiau llenwid hi ag anobaith ac anniddigrwydd. A oedd hi wedi bod yn hunanol a dideimlad yn ymgymryd â chwrs coleg am bedair blynedd, byw yn yr hostel a gadael Anti ar ei phen ei hun i edrych ar ôl ei brawd, a oedd newydd adael yr ysgol i fynd i weithio. Daeth lwmp i'w gwddw wrth feddwl am ei chwaer nad oedd ond blwyddyn yn hŷn na hi, yn gweini a byw i mewn ynghanol Saeson mewn gwesty dros y bwlch, ac yn crio o unigrwydd a chaethiwed.

Safodd Lina i aros am y bws a sylodd ar y stryd a oedd yn wag a diymgeledd. Dim o firi a phrysurbet pnawn Sadwrn, pan dyrrai milwyr yn eu gynnu duon i'r tai bwyta a'r pictiws. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gapelwyr ac yn mynychu'n gyson. Gwelodd un o ferched y Coleg Hyfforddi'n disgwyl y bws am Dalybont Roedd hi'n ddihareb am ymfalchïo mai hi oedd yr eneth fwyaf swanc yn y Coleg. Câl bob math o ddilladau crand gan ci mam, a oedd yn awyddus iddi fachu gŵr hefo B.A., B.D., yn lle llypyn o athro heb radd. Edrychodd Lina'n eiddigeddus ar ei sanau sidan a'i hesgidiau sodlau-main.

Torrwyd ar ei meddyliau gan swm y bws y ffrwtian a dringodd iddo, gan fynd i eistedd yn y cefn o'r golwg. Daeth un teithiwr i mewn; adnabu ef fel un o'r myfyrwyr hŷn a wclid yn cerdded yn gadarn drwy'r Llyfrgell i'r celloedd cudd tu hwnt i'r drws yn y pen draw. Ni chymertent fawr o sylw o'r mân ieuenctid wrth y byrddau'n hanner ymlafnio â'u traethodau a hanner freuddwydio am bleserau'r dref neu'r wlad Wyneb llwyd, llygaid dwfn meddylgar, a'i fryd ar M.A. mewn Hanes: rhibidres o ddyddiadau a brwydrau a chowdal o nodiadau sych i'w dysgu ar y cof oedd Hanes yn yr Ysgol Sir. Yn ôl a glywai ni fyddai 'run o'r myfyrwyr ymchwil yn mynd yn athro ysgol nac yn weinidog. Daeth darlun i'w meddwl o fechgyn dosbarth IV yn strancio a chadw reiat pan ddaeth stiwdant i'r ysgol i ymarfer; y cwbl a wnacth oedd llenwi'r bwrdd du â brawddegau mewn ysgrifennu annalladwy, a'r hogiau'n gwneud ati i weiddi. Un ar ôl y llall, 'What's that word, Sir?' Roedd ganddi bit drosto fo yn gorfod gweiddi a thro'i'n gas.

A dyma hi yn gweld yr un ffawd frawychus o'i blaen.

Dringodd y bws yn araf dros bont y Lein Bach a throellodd yn herciog drwy'r coed trwchus a oedd o bobtu'r ffordd. Gorchuddid popeth gan y niwl a'r unig swm oedd swm y peiriant yn bustachu'n araf. Dal i ddisgyn oedd y glaw a gwylodd Lina'r diferion yn dilyn ei gilydd ar y gwydr, yn ymgonni, ac yna'n gwasgaru'n lli bychan ar y ffrâm. Ar ymylon y ffordd roedd dail cringoch yr hydref yn llipa a gwlyb a'r mân lifogydd yn eu gwthio'n anochel i lawr y rhiw. Cripodd yr oerni o dan ddrws y bws, gan fferru'i thraed a gyrru ias drwy'i chorff. Meddylodd yn bleserus am law gynnes Jeff yn ei chyffwrdd drwy ei ffrog yn y waltz neithiwr, ond disgynnodd ei chalon wrth sylweddoli na allai byth fynd ag ef adre i de fel y gallai Helen.

Erbyn hyn roedd y bws allan o'r coed ac yng ngolwg y ffriddoedd a'r cribau creigiog a ymledai o lethrau Elidir i waelodion y dyffryn. Roedd pob copa ac amlinell o'r panorama a welai'r ymwelwyr yn yr haf o'r golwg dan y caddug. 'Gymylog gastell y didostur law', meddai'r bardd o Fethel. Barddoniaeth. Geiriau. Pa hawl oedd ganddi hi i blesio'i hun drwy ymgolli mewn llyfrau, mynd i'r Cymric i fwynhau dadl, mynychu'r Côr ar nos Wener a boddi yn 'Elijah'; darllen am Gatullus yn galaru ar ôl aderyn to ei gariad, a Dafydd ap Gwilym yn ymserchu mewn llecian wrth ei phaderau yn yr Eglwys.

Arhosodd y bws o flaen capel bychan a daeth y pregethwr i mewn i'r bws yn ei got ddu a'i het gantal lydan Aeth i eistedd at y myfyriwr a bu'r ddau'n sgwrsio'n isel. Edrychent mor sicr a dibryder, yn ffyddiog yn eu dyfodol. Roedd y defnyddau glaw fel perlau ar rimyn het y pregethwr. Pregethu... Dysgu plant... Swyddi parchus... Swyddi arswydus. Daeth ias o atgasedd drosti. Dwrddio plant. Dwrddio pechaduriaid.

'Myfi'r pechadur pennaf', meddai wrthi'i hun, yn llawn o wylltineb am nad oedd ganddi dad a mam; am na allai brynu sgarff melyn-a-gwyrdd fel y myfyrwyr eraill; am fynd i sterics yn hogan ysgol a gwrthod llnau'r lloftydd, gan fod yn gas ganddi y llwch llwyd a'r gwe pry cop o dan y gwllau. A phan oedd Anti wedi'i gyrru i lawr i siop drygist i nôl potel o beparmint at ei phoen, roedd hi wedi troi i mewn i bictiws y pnawn i weld Nelson Eddy yn *One Night of Love*. Ac roedd bob amser yn cuchiau pan ddwedai Anti wrthi am lanhau esgidiau'i brawd.

Pan gyrhaeddodd y bws y terfyn gadawodd i'r ddau ddyn

fynd yn eu blaenau i gyfeiriad Capel Jerusalem a throdd hithau o'r ffordd fawr wrth y Parc Bach. Cerddodd i lawr y stryd, y stryd lle bu'n chware cylchyn a london pan oedd yn blentyn yn y dyddiau dedwydd gynt. Wrth fynd heibio'r rhes gyntaf gwelodd ffenestri di-lenni tŷ Jeni ei chyfnither; yr oedd y tŷ'n wag o hyd. Aethai hi i weld Jeni yn yr ysbyty yng Nghaernarfon cyn iddi farw o'r diciâu. A chofiodd amdani pan oedd yn ifanc yn agor caead y piano ac yn canu, 'O na byddai'n haf o hyd', fel aderyn mewn cawell. Teimlodd y galar yn cronni'n ei gwddw. Wrth basio Tŷ Pen daeth sawr hyfryd cinio Dydd Sul i'w ffroenau - cig eidion a thatws yn y popty, a phwdin reis a chroen du arno. Trodd i'r adwy gefn at y lliidiart, oedd yn rhwd a sigledig ar ei echel. Roedd y ffenestri'n weigion fel llygaid y meirw, a gwelodd Anti'n eistedd yn yr hen gadair dderw a'i het velour lwyd ar ei phen, honno a gafodd ei hail-fowldio i siâp newydd mewn siop yng Nghaernarfon erbyn y Cyfarfod Gwobrwyo yn yr ysgol.

'Wel, y ngenath i,' meddai, ei hwyneb yn wyn fel papur a chlytia duon fel parddu o dan ei llygaid. Roedd dwy gwpan a soser a phlatiad o frechdanau cig ar fwrdd bychan o'i blaen, a'r gegin ganol yn edrych yn fychan heb y bwrdd mawr mahogani ar ganol y llawr, y bwrdd lle bu'n llafurio wrth ei gwaith cartre tan oriau mân y bore. Canai'r tegell du ar dân coed yn yr hen rat haearn. Tywalltodd Anti ddŵr poeth i'r tebot arian. Aeth llygaid Lina i'r silff ben tân, lle bu rhes o sosbenni a thegelli copor. Wedi mynd efo'r pethau eraill? Ble roedd y shiffoniar gyda'r wyneb marmor gwyn a'r dresal dderw a'r cadciriau plysh coch? 'Mi rydwi wedi rhoi y watnot i Elin,' meddai Anti.

Yr oedd Lina wedi gweld cymydog ar stryd Bangor, a honno wedi dwcud wrthi bod Anti yn gwasgaru 'i phethau am y ncsaf peth i ddim i unrhyw gymydog a'i chwenychai.

'Mi fasa ffitiach iti fod yno yn

helpu dy fodryb', ychwanegasai'n filain. Bu'n dweud y drefn yn hallt wrth Anti am beidio gyrru Lina allan i weithio i ennill arian i gadw'r cartra ynghyd. Edrychodd ar Anti yn ceisio yfed y te; yr oedd ei gwallt wedi mynd yn wynnach a'i llygaid yn fwy pŵl.

'Mi ath lori Pritchard a mhetha fi i'r Felinheli ddoe,' meddai, 'ac mi gaiff gwraig tŷ nesa beth bynnag sydd ar ôl.' Roedd Anti wedi llogi stafell yn nhŷ perthynas pell.

Roedd y glaw'n tipian yn araf ar lechi'r cwt yn yr iard a theimlai Lina'r oerni'n codi oddi ar y llawr teils noeth.

'Mi fydd Bobi'n iawn yn Bron y Graig. Mi gaiff fwyd da a mi edrychith Wiliam ar ei ôl. Mi ddoth yma bora.' Gwyddai Lina na fyddai neb ohonynt byth ar yr un aelwyd eto.

Aeth i fyny'r grisiau. Yn y llofft gefn doedd dim ar ôl ond y gwely bach pren lle cysgasai Anti neithiwr.

Yma y byddai Bobi'n cysgu, a hithau'n arthio arno am luchio'i ddillad i bobman.

Roedd y gwely mawr pres wedi mynd i'r Felinheli o'r llofft ganol. Safodd wrth ffenestr-bae y llofft ffrynt a sylodd ar y stryd wag a'r gerddi gwlyb. Roedd pob teulu'n ddiddos wrth eu cinio neu'n paratoi i fynd i'r Ysgol Sul.

Teimlodd Lina'r gwacter yn pwyso arni ac aeth i grynu i gyd. Pan aeth i lawr yn ei hôl roedd Anti wedi gwisgo'i chôt lwyddu ac wedi rhoi'r tebot arian rhwng y cynfasau yn y portmanto bychan.

'Aros i Mrs Huws ddod i nôl y gorriad,' meddai gan godi hances at ei gwefusau.

Roedd y tân priciau wedi diffodd, gan adael dim ond edefyn troellog o fwg a mymrynnau o ludw llwyd ar ôl.

Daeth Mrs Huws drwy'r cefn. 'Dach chi'n mynd rwan,' meddai. 'Ta ta, Mrs Jos. Mi ddoi i edrach amdanoch tua'r Felinheli na.'


Gafelodd Lina yn y portmanto ac aeth y ddwy dan yr ambarel i lawr y stryd am y tro olaf.

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

CROESAIR MAWRTH



Yn ystod tywydd mawr dechrau Chwefror daeth i gof hanes 44 ar draws. 5 ar draws (4,5) y tywysodd yr 16 i lawr i'r 23 ar draws cyn y 27 ar draws mawr, ac yno y buont am 2 a 4 i lawr.

Ar Draws:


1. Cyfnod yn y Coleg Trydyddol (3)
3. ac anrheg ym mhoced un o'r myfyrwyr (3)
10. Natur ffrwydrol yr adyn (5)
11. Mae yng Nghonwy lun â siâp tebyg i bêl rygbi ynddo! (5)
12. Camder (5)
13. Rhyweth syml, plaen (7)
14. Rhai o organau'r planhigion (4)
15. Miwsig yn creu ffortiwn! (4)
16. Yn Eifionydd mac bro "heb staen na chraith" (4)
18. Cam yn ôl? (5)
20. Iâr ddŵr, ond nid ble mae'n byw! (6)
22. Oeraidd (6)
24. Brwydr megis Trafalgar (6)
25. Dyfnder y cefnfor? (6)
29. ond heb fod yn hawdd (4)
32. Tennyn Elin? (4)
33. Gwisg gyfan (4)
35. Trac y mynydd? (7)
39. Y mawr gwahanol? (5)
40. Pleidiwr (5)
41. Y peth a ddefnyddir i droi'r trydan ymlaen (5)
42. Cellocdd o dan y ddacar (9)
43. Llwfdrâ yng ngholofnau'r papur bro (3)

I Lawr:

1. Tynnu'n rhydd (5)
2. Curn a welir yn eu miloedd ar y traffyrdd!! (5)
5. Napeyn (5)
6. Amnecidlo a'r llygad (6)
7. Bwydydd wedi eu cadw mewn finegr neu ddŵr hallt (4)

8. Dirwedd (7)
9. Yr athrawiaeth gydnabyddedig (11)
17. a'r gwynion ar y piano! (5)
18. Y pryd hwn! (5)
19. Troi'n ôl (5)
20. Eog gwryw (5)
21. Nifer fawr yn llety'r fam yng nghyfraith! (5)
26. Metel wedi ei dynnu i ffurf cordyn (7)
28. Sgrwbio (7)
30. Rhai heb ddillad (7)
31. Heb ddolur na gofid yn y byd (6)
34. Adeiladau uchel (5)
36. Deuddeg di-sŵn? (5)
37. Y staen sy'n sillafu ei henw! (5)
38. Past i sicrhau gwydrau ffenestri (4)

Derbyniais atebion i groesair Chwefror gan Olwen Owen, Nan Owen, Edwyn Roberts, Moreen Lennon, Vera Griffiths ac Aylwyn Hughes, Llanberis; D.B. Williams ac Eluned Jones, Trefor; M.P. Jones a Jenny Williams, Clynnog; Jean Hughes-Jones a Catherine A. Jones, Pencaerau; Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Eirian Roberts, Cridwen Williams a Huw Tegid Roberts, Llanrug; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; N. Hughes, Cwm y Glo; Megan Morris, Dinorwig; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; E.E. Jones, Rhoshirwaun; H.O. Hughes, Pwllheli; Gwen Griffith, Deiniolen; Enid Jones, Talysarn; Rosemary Williams, Mynydd Llandegui; Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Alvona Jones, Prestatyn; Gareth Oliver, Tregarth; Nansi Davies, Rhuthun a Pat Owen,



Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

R. L. DAVIES


Coed Belyn Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tonnelli diggers bychain ac excavators 360° newyddda llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
 - tyllu footings
 - clirio gerddi
 - neu unrhyw waith clirio safleoedd
- Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300 neu (07775) 638620



Caerfyrddin.

Ymgais Gareth Oliver, Ty'n Clawdd, Tregarth LL57 4AL ddaeth allan o'r het oedd yn cynnwys yr atebion cywir. Llongyfarchiadau a £5 i ti, Gareth.

Ar ôl cwblhau croesair mis Mawrth, anfonwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd, LL55 3HE erbyn 22 Mawrth.

RHODDION

£25: Côr Eryri.

£10: Enid, Carys a Bethan, teulu'r diweddar Eurwyn Jones, Delfryn, Llanberis; Enid Egginton, Lilian ac Emlyn, Birmingham; Yvonne Lovell, Llanberis.

£5: Selina Morris, Gardda Bach, Nant Peris; Tony Ellis, 5 Nant Ffynnon, Nant Peris; Oddi wrth deulu'r diweddar Tom Lewis Owen, Corby; Oliver a Gwen Edwards, Llanberis; Myfanwy Davies, Snowdon Street, Llanberis; Avril Pritchard, 4 Stryd Fawr, Llanberis; Mrs Phyllis Jones, 2 Hafod Lon, Rhiwlas; Brian ac Eirlys Sharpe, Ael y Bryn, Bethel.

**Cefnogwch
ein Hysbysebwy**

CHWARAEON

Cymru 2 Yr Alban 0

Ie, yn haeddiannol, y crysau coch ddaeth i'r brig ym mrwydr y cefndryd Celtaidd. Yr oedd cryn bwysau ar y ddau dim Cymreig.

I'r tim rygbi rhaid oedd dangos bod modd cario mlaen â'r dull o chwarae 'traddodiadol' a daniodd ein hedmygedd yn ystod Cwpan Rygbi y Byd. Ni chawsom ein siomi yn ystod yr hanner cyntaf, gyda symudiadau celfydd a thrafod graenus, a'r cyfan yn cael ei wneud o gyflymder. Oes yr athletwyr ffit yw hi erbyn hyn, nid y cwlffyn mawr a'r bêl dan ei gesail, yn rhedeg pum llath yna disgyn yn glep ar lawr.

Tybed a oes gan y dull rhanbarthol o dimau gysylltiad pendant â'r newid meddylfryd yma. Amser a ddengys, ond i mi y mae'n dal yn boendod y nifer o 'dramorwyr' sy'n dal i fritho ein timau. Mae'n siŵr mai'r wrth ddadl yw mai'r 'sêr' hyn sy'n denu'r tyrfaoedd, ac felly yn cynhyrchu'r adnoddau ariannol i feithrin y gêm. Hen ddadl mewn sawl camp yn sicr.

Elfen galonogol arall yw mai tim ifanc yw'r tim presennol, ac mae blynyddocdd o'u blacnau. Yr her fydd i bobl gefnogi'r timau rhanbarthol, fel na fydd angen i'r chwaraewyr dawnus ymhel am horfeydd brasach clybiau Lloegr. Rhaid i'n hieuencid weld eu harwyr yn chwarae i'r tim 'lleol' o Sadwrn i Sadwrn. Dyna'r her fwyaf i'r undeb a'r clybiau - troi yr 'ardaloedd' yn 'glybiau' yng ngolwg y cyhoeddi: Y Dreigiau, Y Rhyfelwyr, Y Sgarlets, Y Gleision, Y Gwelch - a phwy a wyr, efallai rhyw ddiwrnod, Y Gogs!

Rwy'n ysgrifennu'r llyth yma cyn y frwydr yn erbyn ein cefndryd eraill ar Barc Landsdowne. Byddaf yno yn gweiddi'n groch - gan obeithio bod y rhediad yn parhau. Gobeithio y bydd y teulu McBryde, o Frynrefail erbyn hyn - ym ymfalchïo ym mherfformiad Robin a'r tim.

A bydd cryn edrych ymlaen i

dorri crib y Ffrancwyr gartref yn y gêm nesaf. Yn sicr - gobeithio - ni ddychwelwn o Ddilyn yn ein dagrau fel dwy flynedd yn ôl, i wlad y 'cwmwl gwyn'.

Mae'n rhyfedd meddwl, y tro nesaf y bydd y Cochion yn wynebu'r Duon, mai dau o gyn hyfforddwyr Cymru fydd yn llywio'r Duon, gan fod Hansen hefyd yn dychwelyd adref i gydweithio â Henry. Dyna her fydd honno i Gareth Jenkins - yr hyfforddwr newydd, gobeithio!

* * *

Os cafodd y ddau fychan - Shane a Rhys - ganmoliaeth gan y torfeydd, yna 'Earnshaw Bach' oedd yr eilyn nos Fercher.

Tim arall dan bwysau eto, o gofi'r siom anhygoel o fethu cyrraedd Portiwgal. (Anhebyg y caiff Rwsia eu taflu allan.) O gofio yr holl dynnu'n ôl cafwyd perfformiad canmoladwy gan Gymru, er rhaid cyfaddef mai gwantan iawn oedd yr Albanwyr.

Am y tro cyntaf ers talwm, cafwyd dull 4-4-2 gan Gymru, yn lle'r bêl hir i fyny i Hartson. Mwy o chwarae i droed, a mwy o symud i lawr yr esgyll. Hen ffasiwn, ond effeithiol!

Y tro cyntaf i mi weld Earnshaw, roedd yn chwarae i dim Ysgolion Cymru, yn yr un tim ac Eifion Jones, Llanrug. Rhaid cyfaddef ei fod yn dda ar y bêl, ond rhaid oedd amau a oedd yn ddigon cryf.

20 gôl i Gaerdydd y tymor yma, 6 gôl i Gymru mewn 10 gêm. 'Se no môr.' Os nad yw e'n fawr mac e'n ddigon.

Fe wyr Marc Huws erbyn hyn fod ganddo ddyfnder i'w garfan, a thipyn o gystadleuaeth. Yn anffodus yr un man gwan yw canol yr amddiffyn, ond gellid symud Gabbidon yno. Y mae'r perfformiad yma wedi rhoi hyder i ni ar gyfer ccisio cyrraedd yr Almaen yng Nghwpan y Byd. Ymlaen â'r freuddwyd - a'i gwireddu, gobeithio!

Safon Iaith

Dyma un o'r pwyntiau y cyfeirir ato o dro i dro, ac nid o reidrwydd ar y cae. Cyfeirir y tro yma at safon sylwebaeth gcmu ar S4C.

Ers blynyddocdd bellach, mae tcrmau chwaraeon sawl camp wedi ennill eu plwy. Nid 'snobyddiaeth' neu 'siarad posh' neu 'criw Sowth eto' mo hyn, ond rhoi statws i'r iaith. Rhaid cyfaddef - fel llawer mae'n ymddangos - fy mod

erbyn hyn yn edrych ar y lluniau a gwrando ar y sylwebaeth radio.

Nid yw'n ddigon da i sylwebydd feddwl yn 'Seisnig' a gobeithio cyficithu ar y pryd. Angen gwersi yn amlwg neu newid y sylwebwyr. Fcl y dywedais y tro diwethaf, braf clywed Meilir Owen a Dai Davics yn trafod y gêm yn llithrig, doniol a gwybodus. Ar y radio!



Ar Ben Arall y Lein

Dyma ni ar drothwy tymor newydd unwaith eto. Mae amser yn hedfan ac mae'n teimlo fel ddoe ers pan oedd y 'genweiriau'n cael eu cadw ar ôl tymor 03. Gobeithio y bdd gwell lwc i'w gael yn y misoedd nesaf. Roedd yr haf diwethaf, yr amser pan ddylai'r pysgota fod ar ei orau, yn grasaboeth gyda sychdwr mawr. Iawn i'r rhai sy'n mwynhau crasu, mae'n debyg.

Roedd yn ddechrau Tachwedd cyn i ni weld digon o law i wneud gwahaniaeth i lefel yr afonydd a'r Seiont yn llawn o eogiaid, ond erbyn hynny, wrth gwrs, roedd y tymor drosodd. Mae'n debyg mai dyma'r rhediad gorau ers blynyddocdd, sy'n argoeli'n dda am y dyfodol. Er hynny, mae'n bleser deud fy mod wedi cael llawer adroddiad da am eogiaid i'w gweld yn Nant Peris: y pwll dan Pont Meibion yn lle da i'w gweld. Ardderchog!

Yr addasiadau i'r llwybr pysgod yng ngheg y twnel sy'n gyfrifol am wneud eu taith yn esmwyth, siŵr o fod, ond mae'n angenrheidiol cael claddu trwm yn Nant er mwyn denu rhediad mwy naturiol yn ystod misoedd yr haf.

Mae'n sicr eich bod wedi syrffedu ar yr adroddiadau yn y gorffennol am ein cynlluniau i addasu Melin y Cim, Pontllyfrni. Wel, mae'r gwaith wedi dechrau, ac i fod i gael ei gwblhau arbyn Awst eleni. Felly, dim mwy am hyn nes bydd y gwaith bron â'i gwblhau, os nad ocs rhywun eisiau bwcio'r wythnos gyntaf, wrth gwrs.

Cafwyd newydd go dda arall

Tymor Rasio Mynydd

Ar Sadwrn olaf Chwefror bydd Ras Moel-y-ci, Rhiwlas yn cael ei chynnal. Yn draddodiadol, dyma'r ras leol gyntaf yn nhymor y rasio mynydd, ac fel arfer, mae'r ras boblogaidd hon yn denu llawer o redwyr o bob cwr o ogledd Cymru a thu draw i'r ffin. Mae'n ras fer - cwta dair milltir, ond gyda dringo serth o'r pentref i fyny i gopa'r mynydd. Disgwylir y rhedwyr cyntaf yn ôl o fewn ugain munud.

Bythefnos yn ddiweddarach bydd Ras Moel Wnion o Lanllechid, ac yna ceir rاسus rhcolaid bron bob Sadwrn mewn rhyw gwr o Gymru. Bydd Ras Elidir eleni yn rhan o Bencampwriaeth Prydain.

Bu rhedwyr lleol yn llwyddiannus iawn y llynedd. Does ond gobeithio y gwelir yr un llwyddiant yn dod i redwyr bro'r 'Eco' eto eleni. Gwylwch y dudalen gefn am fwy o hanes eu gorchestion.

yn ddiweddar: fod arian wedi ei ddynodi i'r gymdeithas brynu cwch arbennig i'r rhai sy'n gorfod defnyddio cadair olwyn. Lleolir y cwch ar Lyn Nantlle. Bydd o fydd mawr i rai oedd gynt yn ei chael yn amhosib treulio ychydig amser yn pysgota neu fyfyrir yn y llechyn arbennig yma.

Mawr yw'r gobaith y bydd yn bosib i'r wyau torgoch, sydd yn y ddeorfa yn Crawia, gael eu magu i faint fydd yn bosib i'r clwb eu ddechrau eu gwerthu. Mae galw mawr am y math yma o gynnyrch, ond araf iawn yw'r awdurdodau sy'n gyfrifol am helpu i ariannu prosiectau o'r math, i gefnogi'r mentrau. Dyma'r unig fenter o'r math yn y wlad. Sgwn i os yw'r Eco yn cael ei ddarllen gan rywun sydd â'r gallu, neu â'r weledigaeth i gefnogi menter or'r fath.

Ers oddeutu chwe blynedd, mae arbrawf wedi ei gynnal ar y Seiont i weld a yw'n briodol i ymestyn tymor sgota eog i ddiwedd Hydref. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bod Is-Ddeddfau Pysgodfeydd, sydd yn aros i'r Cynulliad Cenedlaethol eu cadarnhau, yn cynnwys estyniad parhaol i'r tymor i 31 Hydref.

HUW PRICE HUGHES

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partiön
rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau


* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

**JOHN BRYNAFON
LLANRUG**

Y DYD CIC ar 675190 / 673188



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901